Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

BRIDGEND County Borough Council

# Llyfr Cyllideb 2025-26

# Cynnwys


| Teitl | | Tudalen |
|---|---|---|
| **Adran 1. Cyllidebau refeniw a chyfalaf 2025-26** | | |
| 1.1 | Cyflwyniad | 4 |
| 1.2 | Ffeithiau allweddol am y gyllideb 2025-26 | 5 |
| 1.3 | Trosolwg ariannol | 6 |
| 1.4 | Ariannu gwasanaethau'r cyngor | 8 |
| **Adran 2. Crynodeb o'r taliadau sydd i'w codi** | | |
| 2.1 | Y dreth gyngor ac ystod gwerthoedd y bandiau | 10 |
| 2.2 | Gofyniad y dreth gyngor 2025-26 | 12 |
| 2.3 | % cynnydd band D y dreth gyngor 2025-26 | 13 |
| 2.4 | Taliadau'r dreth gyngor Band D a godir yn ôl ardal cyngor cymuned a thref 2025-26 | 14 |
| 2.5 | Ardrethi annomestig (busnes) (NDR) | 15 |
| **Adran 3. Cyllideb refeniw 2025-26** | | |
| 3.1 | Cyllideb gros i'r gyllideb net | 17 |
| 3.2 | Cyllideb refeniw gros | 18 |
| | • O ble y daw'r arian o Incwm Refeniw Crynswth 2025-26 | 18 |
| | • O ble y daw pob £1 a gaiff ei wario gan y cyngor | 19 |
| | • Ble caiff yr arian ei wario – yn ôl categori gwariant | 19 |
| | • Ble caiff yr arian ei wario – yn ôl maes gwasanaeth | 20 |
| 3.3 | Cyllideb refeniw net | 21 |
| | • Ariannu'r gyllideb refeniw net | 21 |
| | • Cyllideb refeniw net yn ôl gwasanaeth | 22 |
| | • Cyllideb refeniw net yn ôl categori gwariant | 22 |
| | • Dadansoddiad tybiannol o dreth gyngor Band D yn ôl gwasanaeth | 23 |
| 3.4 | Gwariant refeniw net yn ôl cyfarwyddiaeth | 24 |
| **Adran 4. Cyllideb gyfalaf 2025-26** | | |
| 4.1 | Cyllideb gyfalaf 2025-26 | 48 |
| 4.2 | Ariannu'r rhaglen gyfalaf | 49 |
| 4.3 | Dyrannu'r gyllideb gyfalaf | 49 |
| **Adran 5. Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr – ystadegau allweddol** | | |
| 5.1 | Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr | 51 |
| 5.2 | Ystadegau gwasanaeth | 52 |
| **Adran 6. Geirfa** | | |
| 6.1 | Geirfa | 58 |

# Adran 1

## Cyllidebau refeniw a chyfalaf 2025-26

# Adran 1: Cyllidebau refeniw a chyfalaf 2025-26


## 1.1 Cyflwyniad

1.1.1 Mae'r ddogfen hon yn nodi cyllidebau Refeniw a Chyfalaf Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ar gyfer 2025-26 ar ffurf gryno, ynghyd â gwybodaeth ariannol arall. Mae'n adlewyrchu newid yng nghyfanswm y gyllideb* o ganlyniad i gyhoeddi Setliad Llywodraeth Leol Terfynol Llywodraeth Cymru ar 20 Chwefror 2025, heb ei gynnwys pan gymeradwyodd y Cyngor y gyllideb ar 26 Chwefror 2025. Cyflwynwyd adroddiad wedi'i ddiweddaru i'r Cyngor ar 12 Mawrth 2025. Mae'n cynnwys crynodeb o'r gyllideb a gwybodaeth arall am ariannu'r gyllideb gyffredinol, gan gynnwys y ffordd y caiff y Dreth Gyngor ei phennu. Nid yw'r Dreth Gyngor wedi newid o ganlyniad i Setliad Refeniw a Chyfalaf Terfynol Llywodraeth Leol. Mae'n cynnwys y Rhaglen Gyfalaf sydd ar waith tan 2034-35 hefyd. Diben yr wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn y ddogfen hon yw helpu'r cyhoedd, Aelodau Etholedig, Prif Swyddogion a'u staff i ddeall y sefyllfa ariannol bresennol a pharatoi ar gyfer cyllidebau'r dyfodol.

1.1.2 Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau am gynnwys y llyfryn hwn at y Prif Swyddog – Cyllid, Tai a Newid, a Swyddog Adran 151, Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel, Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 4WB neu drwy e-bostio talktous@bridgend.gov.uk.

* Roedd y Setliad Llywodraeth Leol Terfynol yn adlewyrchu gostyngiad o £112,234 yn y Grant Cynnal Refeniw ar gyfer Pen-y-bont ar Ogwr yn 2025-26, o'i gymharu â'r ffigur sydd wedi'i gynnwys yn y Gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor ar 26 Chwefror 2025.

## 1.2 Ffeithiau allweddol am y gyllideb 2025-26



## 1.3 Trosolwg ariannol

1.3.1 Ers i lymder ddechrau mae'r Cyngor wedi gwneud bron i £88.4 miliwn o ostyngiadau yn y gyllideb. Er y bwriedir i gyllideb refeniw net y Cyngor fod yn £383.226 miliwn ar gyfer 2025-26, mae cyfanswm ei wariant yn llawer uwch na hyn. Gan ystyried gwariant a gwasanaethau sy'n cael eu hariannu gan grantiau neu ffioedd at haliadau penodol, bydd cyllideb gros y Cyngor (gan gynnwys praeseptau) oddeutu £530 miliwn yn 2025-26.

1.3.2 Mae cyllideb refeniw flynyddol y Cyngor yn cwmpasu costau rhedeg y Cyngor o ddydd i ddydd (gan gynnwys cyflogau staff, gwasanaethau dan gontract, cyfleustodau, cynnal a chadw adeiladau, costau gweithredol ac ati). Mae £238 miliwn o'r gyllideb gros yn cael ei wario ar staff y Cyngor ei hun gan gynnwys athrawon a staff cymorth ysgolion. Mae llawer o gostau'r gwasanaethau a ddarperir gan sefydliadau allanol hefyd yn gysylltiedig â chyflogau – mae'r rhain yn cynnwys, er enghraifft, gweithredwyr casglu gwastraff, gweithwyr gofal cartref, staff hamdden a gofalwyr maeth. Mae'r Cyngor yn cael y rhan fwyaf o'i gyllid refeniw gan Lywodraeth Cymru drwy'r Grant Cynnal Refeniw a chyfran o Ardrethi Annomestig. Mae'n ategu hyn drwy gasglu'r dreth gyngor, grantiau eraill a ffioedd a thaliadau. Mae'r dreth gyngor yn dâl y mae awdurdodau lleol yn ei godi er mwyn helpu i dalu am eu gwasanaethau. Mae swm y dreth gyngor sy'n ofynnol er mwyn mantoli cyllideb y Cyngor wedi cynyddu'n raddol dros y blynyddoedd diwethaf ac mae'n ariannu 27.84% o'r gyllideb net ar hyn o bryd.

1.3.3 Yn ogystal â bod â llai o incwm gwirioneddol i ariannu gwasanaethau, mae mathau eraill o bwysau sy'n rhoi straen ar adnoddau. Dyma rai ohonynt:

- Newidiadau deddfwriaethol e.e. ymrwymiad Llywodraeth Cymru i symud tuag at ddileu elw o ofal cymdeithasol plant, ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddileu digartrefedd, cyfrifoldebau awdurdodau lleol o ran ymateb i newid hinsawdd a bodloni targedau carbon sero net a Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018, yn ogystal â gofynion diogelu newydd ar gyfer amddiffyn oedolion a newidiadau i'r Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus ar gyfer plant.
- Newidiadau demograffig – mae'r boblogaeth yn cynyddu, ac mae pobl yn byw'n hirach, sy'n amlwg yn newyddion da, ond gall hynny olygu mwy o ddibyniaeth hefyd wrth i bobl fyw gyda chyflyrau mwy cymhleth neu luosog sy'n gofyn am ofal a chymorth cymdeithasol. Gwaethygwyd hyn gan y pandemig gan fod oedi wedi bod o ran gallu cael triniaeth gan y GIG ac effaith cyfyngiadau symud estynedig ar iechyd corfforol a meddyliol. Yn ogystal, mae'r cymhlethdodau a'r heriau i blant a theuluoedd yn amlwg iawn.
- Cynnydd yn nifer y disgyblion yn ein hysgolion, sy'n rhoi mwy o bwysau ar gyllidebau ysgolion, ynghyd â chynnydd yn yr hawl i brydau ysgol am ddim sy'n dod â phwysau ariannol ychwanegol.
- Yn fwy diweddar, gostyngiad yn swm y dreth gyngor sy'n cael ei chasglu, oherwydd yr amgylchiadau economaidd anodd y mae pobl yn eu hwynebu. Mae hyn yn ychwanegol at gynnydd yng nghymorth y dreth gyngor wrth i fwy o bobl gael eu hunain ar incwm isel, yn hawlio budd-daliadau neu'n ymdopi â phwysau costau byw.

1.3.4 Mae Cynllunio Cyllideb ar gyfer blwyddyn ariannol 2025-26 yn parhau i fod yn fwy ansicr nag arfer gyda nifer o bwysau cost presennol a newydd yn cyflwyno eu hunain ac yn defnyddio adnoddau cyfyngedig y Cyngor. Yn ogystal, mae disgwyliadau uwch ar y Cyngor i fynd i'r afael â digartrefedd yn fwy cadarn, ac ar sail gynaliadwy yn y tymor hwy, ac yn ogystal i gryfhau a chynorthwyo gofal cymdeithasol, sy'n profi mwy o alw a chostau yn ogystal ag achosion mwy cymhleth mewn gwasanaethau oedolion a phlant. Rydym hefyd yn gweld mwy o bwysau cyllidebol mewn gwasanaethau i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, oherwydd y galw cynyddol a chymhlethdod anghenion. Mae'r Cyngor yn gorfod lleihau gwariant a gwasanaethau mewn hinsawdd sy'n gofyn am fwy o gymorth i'n haelodau hyn a mwy agored i niwed o gymdeithas gyda galw uwch sylweddol am nifer o wasanaethau.

1.3.5 Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu Cynllun Corfforaethol sy'n nodi'r dulliau y bydd yn eu cymryd i reoli'r pwysau hyn gan barhau hefyd i sicrhau, cyn belled ag y bo modd, y gellir darparu gwasanaethau sy'n diwallu anghenion dinasyddion a chymunedau Pen-y-bont ar Ogwr. Dyma'r dulliau gweithredu:

- Er ei fod yn sefydliad mawr a chymhleth, bydd y Cyngor yn gwneud pob ymdrech i weithio fel un sefydliad unigol. Mae hynny'n golygu osgoi dyblygu a thrin data ddwywaith drwy rannu systemau a phrosesau. Nid yw hyn bob amser mor hawdd ag y mae'n ymddangos oherwydd yn aml mae rheolau neu gyfleoedd gwahanol yn berthnasol i wahanol wasanaethau. Serch hynny, mae gweithredu fel 'Un Cyngor yn gweithio gyda'i gilydd i wella bywydau' yn rhan annatod o weledigaeth y Cyngor.
- Lle bynnag y bo modd, bydd y Cyngor yn cefnogi cymunedau a phobl i ddod yn fwy gwydn drwy greu eu hatebion eu hunain a lleihau'r ddibyniaeth ar y Cyngor. Y rheswm am hyn yw nad yw'n gynaliadwy i'r Cyngor barhau i geisio diwallu'r holl anghenion sy'n codi ac oherwydd bod yna gapasiti, doniau a syniadau'n bodoli mewn rhannau eraill o'r gymuned y gellir eu hannog i fod â rhan weithredol ac effeithiol wrth gynnal ac yn aml wrth wella gwasanaethau lleol. Mae gan y Cyngor rôl o ran annog, galluogi ac arwain y dull hwn ac mae wedi mabwysiadu hyn fel un o'i egwyddorion sylfaenol.
- Mae'r Cyngor wedi cytuno ar egwyddor o ganolbwyntio adnoddau sy'n lleihau ar y cymunedau a'r unigolion mwyaf anghenus. Mae gan rannau o'n cymuned broblemau hirdymor o ran tlodi ac anfantais. Nid yw'r atebion i hyn dan reolaeth uniongyrchol y Cyngor yn gyfan gwbl (er enghraifft, effeithiau newidiadau i'r system les) ond lle y bo'n bosibl, mae'r Cyngor wedi cytuno ei fod am leddfu problemau yn y meysydd hyn a datblygu atebion cynaliadwy tymor hwy. Bydd y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol ar gyrff cyhoeddus, a ddaeth i rym ar 31 Mawrth 2021, yn adlewyrchu'r nodau hyn.

## 1.4 Ariannu gwasanaethau'r cyngor

1.4.1 **Gwasanaethau'r Cyngor**

Mae'r Cyngor yn darparu neu'n galluogi cannoedd o wasanaethau ar draws yr holl gymunedau amrywiol yn y fwrdeistref sirol ac mae'n gyfrifol am ddarparu gwasanaethau fel addysg, gofal cymdeithasol, priffyrdd, parciau a mannau agored, trafnidiaeth gyhoeddus, hawliau tramwy, diogelwch ar y ffyrdd, casglu sbwriel, glanhau strydoedd, refeniw a budd-daliadau, diogelu'r cyhoedd, digartrefedd, cofrestryddion a gwasanaethau hamdden, y celfyddydau a llyfrgelloedd drwy ein partneriaid HALO ac Awen. Mae'r Cyngor yn gwneud dau fath o wariant – gwariant refeniw a gwariant cyfalaf.

1.4.2 **Gwariant refeniw**

Mae gwariant refeniw yn cynnwys gwariant ar gostau gwasanaethau o ddydd i ddydd gan gynnwys cyflogau staff, cynnal a chadw adeiladau a chyflenwadau cyffredinol, comisiynu a chyfarpar. Telir am y gwariant hwn o'r incwm a dderbynnir gan dalwyr y dreth gyngor, talwyr ardrethi busnes, y ffioedd a'r taliadau a godir am wasanaethau penodol ac o grantiau a dderbynnir gan Lywodraeth Cymru.

1.4.3 **Gwariant cyfalaf**

Mae gwariant cyfalaf yn cynnwys gwariant ar asedau fel ffyrdd, ysgolion newydd, cynlluniau ailddatblygu a gwaith adnewyddu mawr ar adeiladau. Bydd yr asedau hyn yn cynnig manteision i'r gymuned am nifer o flynyddoedd a chaiff y gwariant ei ariannu'n bennaf drwy fenthyca, grantiau cyfalaf, a gwerthu tir ac adeiladau diangen.

1.4.4 **Ffynonellau cyllid**

Y prif ffynonellau incwm y mae'r Cyngor yn eu derbyn yw ffioedd a thaliadau, grantiau, ardrethi busnes a'r dreth gyngor. Rhoddir diffiniad o'r rhain isod:

- **Ffioedd a thaliadau**
  Mae ffynonellau incwm o ffioedd a thaliadau yn amrywio o daliadau am barcio i lety preswyl i'r henoed, taliadau prydau ysgol, taliadau cynllunio, taliadau am gasglu gwastraff swmpus, llogi cyfleusterau ac incwm o osod eiddo masnachol fel unedau diwydiannol.

- **Grantiau'r Llywodraeth**
  Mae Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid i awdurdodau lleol drwy nifer o ffynonellau, gan gynnwys y grant unigol mwyaf, sef y Grant Cynnal Refeniw, y gellir ei ddefnyddio at unrhyw ddiben y maent yn ei ddewis wrth ddarparu'r gwasanaethau y maent yn gyfrifol amdanynt. Mae cyllid arall a ddarperir i Gynghorau gan Lywodraeth Cymru yn cynnwys grantiau at ddibenion penodol. Yn ogystal â'r cyllid y mae awdurdodau'n ei gael gan Lywodraeth Cymru, maent yn derbyn rhai grantiau wedi'u neilltuo gan gyrff eraill y llywodraeth (dim ond at y dibenion penodol y cânt eu darparu y gellir defnyddio'r grantiau hyn).

- **Ardrethi busnes**
  Mae awdurdodau lleol yn cael incwm hefyd drwy Lywodraeth Cymru o ardrethi annomestig (busnes) a bennir yn genedlaethol.

- **Y dreth gyngor**
  Ar ôl ystyried incwm o ffioedd a thaliadau, grantiau'r llywodraeth ac ardrethi annomestig, ariennir gwariant refeniw gan y dreth gyngor, a godir ar bob eiddo yn ardal y Cyngor, yn amodol ar ostyngiadau ac eithriadau penodol. Y dreth gyngor yw'r unig elfen o gyllid y cyngor sy'n seiliedig ar dreth, nad yw'n cael ei phennu gan Lywodraeth Cymru. Yn 2025-26, cronfeydd incwm treth gyngor bron i 28% o wariant refeniw net y cyngor.

- **Cyllid cyfalaf**
  Mae awdurdodau lleol yn derbyn grantiau gan Lywodraeth Cymru ar gyfer gwariant cyfalaf, a gallant bennu faint y gallant fforddio ei fenthyca yn seiliedig ar asesiad darbodus o'u harian gan ddefnyddio codau ymarfer proffesiynol e.e Cod Darbodus Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA). Cyfeirir at arian a fenthycir dan y cod fel Benthyca Darbodus.

# Adran 2

## Crynodeb o'r taliadau sydd i'w codi

# Adran 2: Crynodeb o'r taliadau sydd i'w codi

## 2.1 Y dreth gyngor ac ystod gwerthoedd y bandiau


2.1.1 Mae faint o'r dreth gyngor y mae preswylydd yn ei dalu yn dibynnu ar y band y mae ei eiddo/annedd ynddo. Dyrennir pob annedd i un o naw band gan Asiantaeth y Swyddfa Brisio (VOA), asiantaeth annibynnol nad yw'n rhan o'r Cyngor. Ers 2005, cyfrifwyd y dreth gyngor gan ddefnyddio naw band prisio (bandiau A i I) a sefydlwyd yn 2005 gan ddefnyddio gwerthoedd tai 2003. Fodd bynnag, mae Asiantaeth y Swyddfa Brisio hefyd yn asesu eiddo pan ofynnir iddo wneud hynny, er enghraifft yn ystod apêl y dreth gyngor neu wrth adolygu band.

2.1.2 Mae'r tabl isod yn rhoi manylion canran yr anheddau cyngor yn ôl band y dreth gyngor.

| Band | Ystod gwerth Anheddau (Gwerth Eiddo ar 1 Ebrill 2003) | Cymhareb | Nifer yr Anheddau | % yr anheddau yn y band |
|---|---|---|---|---|
| A | Hyd at £44,000 | 6/9 | 10,597 | 15.99 |
| B | £44,001 i £65,000 | 7/9 | 15,369 | 23.21 |
| C | £65,001 i £91,000 | 8/9 | 14,830 | 22.38 |
| **D** | **£91,001 i £123,000** | **9/9** | **11,046** | **16.67** |
| E | £123,001 i £162,000 | 11/9 | 8,017 | 12.10 |
| F | £162,001 i £223,000 | 13/9 | 4,477 | 6.76 |
| G | £223,001 i £324,000 | 15/9 | 1,513 | 2.28 |
| H | £324,001 i £424,000 | 18/9 | 295 | 0.45 |
| I | £424,001 a throsodd | 21/9 | 113 | 0.16 |
| **Total** | | | **66,257** | **100** |

Mae'r siart isod yn dangos canran anheddau'r dreth gyngor ym mhob band.

### % anheddau yn ôl band




**Mae 61.58% o eiddo ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn talu llai na'r hyn sy'n cyfateb i 'Band D' sef y band a ddefnyddir i gymharu lefelau'r Dreth Gyngor ar draws Awdurdodau Lleol.**

2.1.3 Mae'r tabl isod yn dangos lefel y dreth gyngor ar gyfer trigolion Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn ôl band prisio. Ar gyfer eiddo Band D, sy'n cyfrif am 16.67% o'r eiddo ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, elfen y cyngor o'r dreth gyngor yw £1,916.96.

## Ystod Gwerthoedd Bandiau'r Dreth Gyngor 2025-26 – Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

| Band | Ystod gwerth Anheddau (Gwerth Eiddo ar 1 Ebrill 2003) | Y Dreth Gyngor 2024-25 £ | Y Dreth Gyngor 2025-26 £ |
|---|---|---|---|
| A | Hyd at £44,000 | 1,222.94 | 1,277.97 |
| B | £44,001 i £65,000 | 1,426.76 | 1,490.97 |
| C | £65,001 i £91,000 | 1,630.59 | 1,703.96 |
| **D** | **£91,001 i £123,000** | **1,834.41** | **1,916.96** |
| E | £123,001 i £162,000 | 2,242.06 | 2,342.95 |
| F | £162,001 i £223,000 | 2,649.70 | 2,768.94 |
| G | £223,001 i £324,000 | 3,057.35 | 3,194.93 |
| H | £324,001 i £424,000 | 3,668.82 | 3,833.92 |
| I | £424,001 a throsodd | 4,280.29 | 4,472.91 |

2.1.4 Mae bil y dreth gyngor ar gyfer blwyddyn ariannol 2025-26 (1 Ebrill 2025 i 31 Mawrth 2026) yn cynnwys taliadau a godir gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, Comisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru a Chynghorau Cymuned a Thref. Mae'r Cyngor yn casglu'r taliadau a godir ar gyfer y ddau gorff arall drwy fecanwaith y dreth gyngor. Yna telir yr arian a gesglir i'r cyrff perthnasol yn unol â'r hyn y maent wedi'i gynnwys yn eu cyllideb i godi ar aelwydydd ym mwrdeistref sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

## 2.2 Gofyniad y dreth gyngor 2025-26

2.2.1 Er mwyn cwblhau ei gyllideb, mae'n rhaid i'r Cyngor bennu gofyniad y dreth gyngor– sef y swm o arian sydd i'w godi gan y dreth gyngor. Mae hyn ar ôl ariannu'r holl ofynion ac asesu lefelau incwm gan y llywodraeth ac o fannau eraill. Ar hyn o bryd, mae'r dreth gyngor yn cyfrif am tua 28% o'r arian y mae'r Cyngor yn ei gael. Mae lefel y cynnydd yn ceisio taro cydbwysedd priodol rhwng anghenion y Cyngor a'i ddinasyddion. Sylfaen y Dreth Gyngor Gros ar gyfer Pen-y-bont ar Ogwr ar gyfer 2025-26 yw 57,087.39 eiddo cyfwerth â Band D a'r gyfradd gasglu a amcangyfrifir yw 97.5%. Felly, sylfaen net y dreth gyngor yw 55,660.20, sy'n rhoi treth gyngor Band D o £1,916.96, fel y nodir yn y tabl isod:


### Cyfrifir y Dreth Gyngor gyfartalog ar gyfer Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr isod:

| **Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr** | **2024-25<br>£** | **2025-26<br>£** |
|---|---|---|
| Gwariant a godwyd ar y Cyfrif Refeniw | 498,715,877 | 529,801,345 |
| Incwm a gredydwyd i'r Cyfrif Refeniw | (138,044,460) | (146,575,320) |
| **Cyllideb Gwariant Net** | **360,671,417** | **383,226,025** |
| Wedi'i ariannu'n rhannol gan: | | |
| Grant Cynnal Refeniw (RSG) | (205,952,692) | (223,939,596) |
| Dosbarthiad Ardrethi Annomestig Cenedlaethol (Ardrethi Busnes) | (52,971,909) | (52,588,052) |
| **Swm i'w ariannu gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr** | **101,746,816** | **106,698,377** |
| Gofyniad y Dreth Gyngor | 101,746,816 | 106,698,377 |
| Sylfaen y Dreth Gyngor Net (Cyfwerth â Band D) | 55,465.69 | 55,660.20 |
| **Gofyniad Band D y Dreth Gyngor** | **£1,834.41** | **£1,916.96** |
| **Newid Canrannol dros y flwyddyn flaenorol** | **9.5%** | **4.5%** |

## 2.3 % cynnydd band D y dreth gyngor 2025-26

2.3.1 Mae'r swm sydd i'w dalu o'r dreth gyngor eleni yn £106.698 miliwn. Mae hyn yn cynnwys cynnydd o 4.5% yn y taliad Band D cyfartalog a godir am elfen y cyngor bwrdeistref sirol. Mae hyn o ganlyniad i'r pwysau parhaus y mae'r cyngor yn eu hwynebu. Mae praesept Comisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru ar gyfer eiddo Band D wedi cynyddu 7.37%, ac mae praesept cyfartalog y Cynghorau Cymuned a Thref ar gyfer eiddo Band D wedi gostwng 7.88%. Cyfanswm y cynnydd cyffredinol cyfartalog yn y dreth gyngor ar gyfer eiddo Band D yw 5.04%.

### % y newid yn y dreth gyngor i Fand D 2025-26



## 2.4 Taliadau'r dreth gyngor Band D a godir yn ôl ardal cyngor cymuned a thref 2025-26

2.4.1 Roedd y tabl blaenorol yn dangos y dreth gyngor ar gyfer trigolion Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn ôl band eiddo. Mae praeseptau Cynghorau Tref a Chymuned yn amrywio ar draws y Fwrdeistref Sirol, gan gynhyrchu amrywiadau yn y cyfanswm sy'n daladwy gan y deiliad tŷ yn yr un band treth gyngor mewn gwahanol rannau o'r Fwrdeistref Sirol, ac mae'r tabl isod yn dangos dadansoddiad o gyfanswm y dreth gyngor a godir, gan gynnwys y cyfanswm sy'n daladwy yn ôl ardal Cyngor Tref a Chymuned ar gyfer 2025-26 ar gyfer eiddo Band D:

| Cyngor Cymuned a Thref | Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr £ | Cyngor Cymuned a Thref £ | Yr Heddlu £ | Cyfanswm £ |
|---|---:|---:|---:|---:|
| Cyngor Cymuned Bracla | 1,916.96 | 49.02 | 378.67 | 2,344.65 |
| Cyngor Tref Pen-y-bont ar Ogwr | 1,916.96 | 124.29 | 378.67 | 2,419.92 |
| Cyngor Cymuned Cefn Cribwr | 1,916.96 | 75.38 | 378.67 | 2,371.01 |
| Cyngor Cymuned Coety Uchaf | 1,916.96 | 29.40 | 378.67 | 2,325.03 |
| Cyngor Cymuned Corneli | 1,916.96 | 58.12 | 378.67 | 2,353.75 |
| Cyngor Cymuned Llangrallo Uchaf | 1,916.96 | 32.40 | 378.67 | 2,328.03 |
| Cyngor Cymuned Llangrallo Isaf | 1,916.96 | 73.46 | 378.67 | 2,369.09 |
| Cyngor Cymuned Cwm Garw | 1,916.96 | 56.76 | 378.67 | 2,352.39 |
| Cyngor Cymuned Trelales | 1,916.96 | 59.39 | 378.67 | 2,355.02 |
| Cyngor Cymuned Llangynwyd Isaf | 1,916.96 | 72.66 | 378.67 | 2,368.29 |
| Cyngor Cymuned Llangynwyd Ganol | 1,916.96 | 68.79 | 378.67 | 2,364.42 |
| Cyngor Tref Maesteg | 1,916.96 | 70.16 | 378.67 | 2,365.79 |
| Cyngor Cymuned Merthyr Mawr | 1,916.96 | 33.81 | 378.67 | 2,329.44 |
| Cyngor Cymuned Castellnewydd Uchaf | 1,916.96 | 31.22 | 378.67 | 2,326.85 |
| Cyngor Cymuned Cwm Ogwr | 1,916.96 | 35.47 | 378.67 | 2,331.10 |
| Cyngor Tref Pencoed | 1,916.96 | 52.81 | 378.67 | 2,348.44 |
| Cyngor Tref Porthcawl | 1,916.96 | 71.52 | 378.67 | 2,367.15 |
| Cyngor Cymuned y Pîl | 1,916.96 | 56.98 | 378.67 | 2,352.61 |
| Cyngor Cymuned Llansanffraid-ar-Ogwr | 1,916.96 | 29.87 | 378.67 | 2,325.50 |
| Cyngor Cymuned Ynysawdre | 1,916.96 | 31.66 | 378.67 | 2,327.29 |

## 2.5 Ardrethi annomestig (busnes) (NDR)

2.5.1 Ardrethi annomestig yw'r modd y mae busnesau a pherchnogion eiddo annomestig eraill yn cyfrannu at gostau gwasanaethau awdurdodau lleol. Mae ardrethi busnes yn dreth leol flynyddol. Mae talwyr ardrethi a pherchnogion pob eiddo annomestig a busnes yn talu ardrethi busnes, ac mae enghreifftiau o eiddo atebol yn cynnwys siopau, swyddfeydd, tafarndai, warysau a ffatrïoedd.

2.5.2 Caiff y lluosydd Ardrethi Busnes Cenedlaethol ei bennu gan Lywodraeth Cymru bob blwyddyn yn unol â pharagraff 3B o Atodlen 7 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988. Mae'r cyfrifiad yn seiliedig ar fformiwla sy'n ystyried y newid blynyddol yn y Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI), ac ar gyfer y flwyddyn ariannol 2025-26 mae'r lluosydd wedi cynyddu i £0.568. Dywedodd Llywodraeth Cymru: "Byddwn hefyd yn rhoi cap o 1% ar y cynnydd i'r lluosydd ardrethi annomestig ar gyfer 2025-26, ar gost flynyddol reolaidd i gyllideb Cymru o £7m. Mae hyn yn is na'r cynnydd o 1.7% a fyddai fel arall yn berthnasol oherwydd chwyddiant diofyn y lluosydd yn unol â'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI) a bydd o fudd i bob talwr ardrethi nad yw eisoes yn cael rhyddhad llawn".

| Ardrethi Annomestig (Busnes) | 2024-25 | 2025-26 |
|---|---|---|
| Lluosydd Ardrethi Busnes Cenedlaethol (a bennir gan Lywodraeth Cymru) | 56.2c fesul £ | 56.8c fesul £ |

2.5.3 Cyfrifir Ardrethi Annomestig (NDR) drwy gymryd Gwerth Ardrethol (RV) eiddo a'i luosi â 'lluosydd' yr NDR am y flwyddyn dan sylw.

2.5.4 Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn casglu ardrethi busnes ar ran Llywodraeth Cymru. Yna caiff cyfran o'r swm a gesglir ei ailddosbarthu i awdurdodau lleol yng Nghymru, yn seiliedig ar boblogaeth oedolion pob awdurdod, fel rhan o'r setliad llywodraeth leol, i dalu am wasanaethau.

2.5.5 Mae gwybodaeth am eiddo sydd wedi'u heithrio rhag talu ardrethi busnes, neu sy'n talu cyfradd is, ar gael yn y cyfeiriad gwefan canlynol: https://businesswales.gov.wales/cy/pynciau-a-chyfarwyddyd/treth-busnes-trethi-ardrethi-ac-adeiladau/ardrethi-busnes-yng-nghymru

# Adran 3


## Cyllideb refeniw 2025-26

# Adran 3: Cyllideb refeniw 2025-26

## 3.1 Cyllideb gros i'r gyllideb net

3.1.1 Fel rhan o broses pennu'r gyllideb a'r dreth gyngor, mae Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (adran 32) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor gyfrifo amcangyfrif o wariant net a elwir yn ofyniad y gyllideb.

Mae'r diagram isod yn esbonio'r gwahaniaeth rhwng y gyllideb gros a net:




3.1.2 **Y Gyllideb Refeniw**
Dyma'r cyfrif a ddefnyddir ar gyfer talu am y gwariant ar wasanaethau awdurdod lleol o ddydd i ddydd. Dyma'r gwariant sy'n destun craffu a chyhoeddusrwydd fwyaf gan ei fod yn cwmpasu holl wasanaethau'r Cyngor a chaiff ei ariannu'n rhannol, ond nid yn gyfan gwbl, o incwm y dreth gyngor.

## 3.2 Cyllideb refeniw gros

Mae'r siartiau isod yn amlinellu ein cynlluniau ar gyfer incwm gros a gwariant ar gyfer 2025-26. Cost gros gwasanaethau refeniw a ddarperir gan y Cyngor yn 2025-26 yw £499 miliwn; mae hyn yn cynnwys gwariant a ariannwyd gan ffrydiau incwm eraill yn cynnwys grantiau eraill gan y Llywodraeth, grantiau a chyfraniadau eraill, derbyniadau cwsmeriaid a chleientiaid a llog ar fuddsoddiadau.

### O ble y daw'r arian o Incwm Refeniw Crynswth 2025-26 (£529.801m)




* Mae Ffioedd, Taliadau a godir ac Incwm Arall yn cynnwys trosglwyddo arian o gronfeydd wrth gefn a glustnodwyd (£3.972 miliwn), ailgodi taliadau rhwng cyfarwyddiaethau (£7.696 miliwn), Incwm mewnol gan gynnwys incwm sy'n gysylltiedig â chontractau (£9.583 miliwn), ac incwm gan gwsmeriaid a chleientiaid (£26.939 miliwn).

## O ble y daw pob £1 a gaiff ei wario gan y Cyngor



**52c** Grant Cynnal Refeniw Llywodraeth Cymru ac Ardrethi Annomestig

**20c** Y Dreth Gyngor

**16c** Grantiau Penodol y Llywodraeth

**9c** Ffioedd, Taliadau a Godir ac Incwm Arall

**3c** Grantiau a Chyfraniadau Eraill

Ceir dadansoddiad o’r gwariant refeniw gros yn ôl categori gwariant yn y tabl isod:

## Ble caiff yr arian ei wario – yn ôl categori gwariant

### Gwariant gros yn ôl math o wariant 2025-26 (£529.801m)





- Costau sy'n gysylltiedig â safleoedd **(3.19% - £16.879m)**
- Gwariant sy'n gysylltiedig â thrafnidiaeth **(3.77%-£19.991m)**
- Cyflenwadau a Gwasanaethau **(11.63% - £61.604m)**
- Taliadau Trydydd Parti **(23.41% - £124.037m)**
- Taliadau Trosglwyddo **(11.10% - £58.790m)**
- Gwasanaethau Cymorth **(0% - £0.025m)**
- Costau Ariannu Cyfalaf **(1.94% - £10.271m)**
- Costau Cyflogeion **(44.96% - £238.204m)**

Ceir dadansoddiad o'r gwariant refeniw gros yn ôl maes gwasanaeth yn y tabl isod:

## Ble caiff yr arian ei wario – yn ôl maes gwasanaeth

### Ble caiff yr arian ei wario
### Gwariant Refeniw Gros 2025-26 (£529.801m)




Noder: Mae Swyddogaethau Eraill ar draws y Cyngor yn cynnwys Costau Ariannu Cyfalaf, Ardollau, Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a darpariaeth gorfforaethol ar gyfer cyflogau a phrisiau.

Mae Gwasanaethau Cymorth Canolog y Prif Weithredwyr yn cynnwys: Cyllid, Archwilio, Adnoddau Dynol, TGCh, Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd a Rheoleiddiol, Tai a Digartrefedd, Cymorth Busnes, ac Etholiadau a Phartneriaethau.

Cymunedau – yn cynnwys Rheoli Cyfleusterau ac Asedau, Gwasanaethau Cynllunio a Datblygu, Adfywio Strategol, yr Economi, Adnoddau Naturiol a Chynaliadwyedd, Strydoedd Glanach a Rheoli Gwastraff, Landlord Corfforaethol, a Phriffyrdd a Mannau Gwyrdd.


## 3.3 Cyllideb refeniw net

Mae'r siartiau isod yn amlinellu ein cynlluniau ar gyfer incwm net a gwariant ar gyfer 2025-26. Cost net gwasanaethau refeniw a ddarperir gan y Cyngor yn 2025-26 yw £383.226 miliwn; mae hyn yn cynnwys gwariant a ariannwyd gan y grant cynnal refeniw, cyfran o ardrethi annomestig a'r dreth gyngor yn unig.

### Ariannu'r gyllideb refeniw net

Mae'r siart canlynol yn dadansoddi prif ffynonellau ariannu gwariant net ar gyfer 2025-26:


**Ariannu gwariant refeniw net 2025-26 (Cyfanswm £383.226m)**



## Cyllideb refeniw net yn ôl gwasanaeth

Mae'r siart isod yn dangos y gyllideb refeniw net o £383.226 miliwn yn ôl maes gwasanaeth:

### Gwariant net ar wasanaethau 2025-26 (£383.226m)




## Cyllideb refeniw net yn ôl categori gwariant

Mae'r tabl isod yn rhoi manylion gwariant refeniw net yn ôl categori gwariant:

| Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr | Cyllideb £' miliwn | % |
|---|---|---|
| Costau Cyflogeion | 238.204 | 44.95 |
| Costau sy'n Gysylltiedig â Safleoedd | 16.879 | 3.19 |
| Gwariant sy'n Gysylltiedig â Thrafnidiaeth | 19.991 | 3.77 |
| Cyflenwadau a Gwasanaethau | 61.604 | 11.63 |
| Taliadau Trydydd Parti | 124.037 | 23.41 |
| Taliadau Trosglwyddo | 58.790 | 11.10 |
| Gwasanaethau Cymorth | 0.025 | 0.01 |
| Costau Ariannu Cyfalaf | 10.271 | 1.94 |
| **Cyllideb Gros** | **529.801** | **100** |
| **Grantiau ac Incwm Arall** | | |
| Grantiau Penodol y Llywodraeth | (84.716) | |
| Grantiau a Chyfraniadau Eraill | (16.264) | |
| Ffioedd, Taliadau a Godir ac Incwm Arall | (45.595) | |
| **Cyllideb Net** | **383.226** | |

## Dadansoddiad tybiannol o dreth gyngor Band D yn ôl gwasanaeth

Ceir dadansoddiad tybiannol o gyllideb refeniw net 2025-26 yn seiliedig ar Fand D sy'n cyfateb i £1,916.96 (cynnydd o 4.5%), fel enghraifft, yn y tabl isod:

| Gwariant Gwasanaeth | Cyllideb Net £ | Tybiannol Cyfwerth â Band D £ |
|---|---:|---:|
| Addysg, Blynyddoedd Cynnar a Phobl Ifanc | 31.653 | £158.33 |
| Ysgolion | 123.209 | £616.32 |
| Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant | 115.909 | £579.80 |
| Cymunedau | 33.754 | £168.84 |
| Prif Weithredwr | 24.815 | £124.13 |
| **Cyllidebau ar draws y Cyngor** | | |
| Cyllid Cyfalaf | 5.958 | £29.80 |
| Ardollau | 10.208 | £51.06 |
| Gwaith Atgyweirio a Chynnal a Chadw | 0.670 | £3.35 |
| Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor | 17.054 | £85.31 |
| Ardoll Prentisiaethau | 0.750 | £3.75 |
| Costau sy'n Gysylltiedig â Phensiynau | 0.430 | £2.15 |
| Premiymau Yswiriant | 1.363 | £6.82 |
| Cyllidebau Eraill ar draws y Cyngor | 17.453 | £87.30 |
| **Gwariant Net i'w ariannu** | **383.226** | **£1,916.96** |

## 3.4 Gwariant refeniw net yn ôl cyfarwyddiaeth

### 3.4.1 Trosolwg o Addysg, Blynyddoedd Cynnar a Phobl Ifanc

Mae'r Cyngor yn bwriadu gwario £155 miliwn ar wasanaethau a ddarperir gan y Gyfarwyddiaeth Addysg, Blynyddoedd Cynnar a Phobl Ifanc yn 2025-2026, cyn dyrannu cyllid ychwanegol yn ystod y flwyddyn am gyflogau a chynnydd mewn prisiau.

Bydd y rhan fwyaf o'r arian hwn yn cael ei wario gan y 59 o ysgolion ar draws Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ac un uned cyfeirio disgyblion. Ysgolion yw'r maes gwariant unigol mwyaf i'r Cyngor.

Yn ogystal â'r gyllideb arfaethedig o £123 miliwn i'w dirprwyo i ysgolion i ddechrau yn 2025-2026, mae'r Cyngor eisoes wedi gwario £21.6 miliwn ar waith adeiladu ac adnewyddu ysgolion fel rhan o'n Rhaglen Band A Moderneiddio Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif ac mae wedi ymrwymo i £41 miliwn arall fel rhan o'r Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy.

Mae'r symiau hyn yn cynnwys gwariant cyfalaf untro dros nifer o flynyddoedd, gan gynnwys cyllid ar gyfer gwaith tir a seilwaith, gydag arian cyfatebol sylweddol gan Lywodraeth Cymru.

Mae'r cysyniadau a gynigir yn seiliedig ar y galw a ragwelir am leoedd mewn ysgolion cynradd, ein cymorth i hyrwyddo'r twf mewn addysg cyfrwng Cymraeg a'n dymuniad i greu capasiti ychwanegol i ddiwallu anghenion plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn Ysgol Heronsbridge. Mae'n debygol mai hwn fydd y maes gwariant cyfalaf mwyaf i'r Cyngor yn y blynyddoedd i ddod.

Mae gan y Cyngor nod tymor hwy i wneud y system ysgolion yn gyffredinol yn fwy effeithlon (er enghraifft, drwy sicrhau bod gennym y nifer cywir o leoedd ysgol ar gael yn y rhannau cywir o'r sir (gan gynnwys sicrhau digon o gapasiti ar gyfer y cynnydd a ragwelir yn y dyfodol mewn poblogaeth oedran ysgol)).

Mae amcanion llesiant y Cyngor yn blaenoriaethu cefnogi pobl agored i niwed a'u helpu i fod yn fwy hunangynhaliol. Mae elfen Blynyddoedd Cynnar a Phobl Ifanc y gyfarwyddiaeth yn cynnwys:

- Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant – gan gynnwys rhaglen uchelgeisiol ar gyfer ehangu Dechrau'n Deg.
- Tîm Ymgysylltu ag Addysg – yn arwain ar ddiogelu mewn ysgolion, cymorth i ddysgwyr agored i niwed, presenoldeb mewn ysgolion a gwaharddiadau mewn ysgolion.
- Gwasanaeth Ieuenctid Pen-y-bont ar Ogwr – mynediad agored (clybiau ieuenctid) ac ymyriadau wedi'u targedu, gan gynnwys arwain ar gymorth i'r bobl ifanc hynny sydd mewn perygl o beidio â sicrhau addysg, cyflogaeth na hyfforddiant.
- Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Pen-y-bont ar Ogwr – sy'n cwmpasu ymyriadau statudol ac ataliol i'r plant hynny sy'n derbyn cymorth gan y gwasanaeth.

3.4.1.1 **Refeniw Addysg, Blynyddoedd Cynnar a Phobl Ifanc: gwasanaethau a ddarperir**

| Cyllideb Net 2024/2025 £ | ADDYSG, BLYNYDDOEDD CYNNAR A PHOBL IFANC | Cyllideb Net 2025/2026 £ |
|---|---|---|
| | **Cymorth i Ddysgwyr** | |
| 6,830,460 | Anghenion Dysgu Ychwanegol | 8,953,880 |
| **6,830,460** | **Is-gyfanswm** | **8,953,880** |
| | **Blynyddoedd Cynnar a Phobl Ifanc** | |
| 1,296,230 | Gwasanaeth Ieuenctid | - |
| 3,299,780 | Cymorth i Deuluoedd | 2,780,780 |
| **4,596,010** | **Is-gyfanswm** | **2,780,780** |
| | **Perfformiad a Chymorth Strategaeth** | |
| 12,240,720 | Cymorth Busnes | 13,062,180 |
| 363,080 | Iechyd a Diogelwch | 276,690 |
| **12,603,800** | **Is-gyfanswm** | **13,338,870** |
| | **Cymorth i Ysgolion** | |
| 574,780 | Gwella Ysgolion | 733,730 |
| (14,210) | Gwasanaeth Cerdd Ysgolion | 44,410 |
| **560,570** | **Is-gyfanswm** | **778,140** |
| | **Cymunedau Dysgu Cynaliadwy** | |
| 3,874,280 | Moderneiddio Ysgolion | 3,995,290 |
| **3,874,280** | **Is-gyfanswm** | **3,995,290** |
| | **Addysg Arall** | |
| 1,751,880 | Rheoli Strategol | 1,806,040 |
| **1,751,880** | **Is-gyfanswm** | **1,806,040** |
| | **Cyllidebau Ysgolion Dirprwyedig** | |
| 113,268,000 | Cyllidebau Ysgolion Dirprwyedig | 123,209,000 |
| **113,268,000** | **Is-gyfanswm** | **123,209,000** |
| | | |
| **143,485,000** | **Cyfanswm: Addysg, Blynyddoedd Cynnar a Phobl Ifanc** | **154,862,000** |

3.4.1.2 **Refeniw Addysg, Blynyddoedd Cynnar a Phobl Ifanc: math o wariant**

| Cyllideb Net 2024/2025 £ | ADDYSG GANOLOG, BLYNYDDOEDD CYNNAR A PHOBL IFANC | Cyllideb Net 2025/2026 £ |
|---:|---|---:|
| | **Cyflogeion** | |
| 2,909,470 | Athrawon | 3,133,370 |
| 283,940 | Prif Swyddogion | 294,750 |
| 13,357,780 | Swyddogion | 10,811,530 |
| 320,850 | Arweinwyr Ieuenctid | 235,730 |
| 442,800 | Swyddogion Soulbury | 428,620 |
| 25,000 | Staff Asiantaeth | 67,000 |
| 943,460 | Hyfforddiant Staff a Chostau Pensiwn Hanesyddol | 944,460 |
| | **Gwariant sy'n Gysylltiedig â Safleoedd** | |
| 21,500 | Gwaith Atgyweirio a Chynnal a Chadw | 20,000 |
| - | Cynnal a Chadw'r Tir | 15,000 |
| 20,770 | Costau Ynni | - |
| 62,050 | Rhenti | 135,930 |
| 10,840 | Ardrethi Busnes / Y Dreth Gyngor | - |
| 1,440 | Gwasanaethau Dŵr | - |
| 2,100 | Cyflenwadau Domestig a Glanhau | 2,000 |
| 14,000 | Costau Adeiladau a Rennir | 14,000 |
| 2,800 | Yswiriant Safleoedd | 2,800 |
| 22,620 | Costau Eraill sy'n Gysylltiedig â Safleoedd | 5,340 |
| | **Costau sy'n Gysylltiedig â Thrafnidiaeth** | |
| 10,700 | Costau Trafnidiaeth Uniongyrchol | 3,450 |
| 34,070 | Llogi Gwasanaethau Fflyd | 12,650 |
| 9,647,000 | Llogi Contract a Lesio Gweithredol | 10,647,170 |
| 5,700 | Trafnidiaeth Gyhoeddus | 4,200 |
| 106,430 | Lwfans Ceir | 79,740 |

| Cyllideb Net 2024/2025 £ | ADDYSG GANOLOG, BLYNYDDOEDD CYNNAR A PHOBL IFANC (parhad) | Cyllideb Net 2025/2026 £ |
|---:|---|---:|
| | **Cyflenwadau a Gwasanaethau** | |
| 443,650 | Offer, Deunyddiau a Dodrefn | 375,290 |
| 1,819,150 | Arlwyo | 1,782,390 |
| 11,760 | Dillad, Gwisgoedd, Golchdy | 11,970 |
| 60,870 | Argraffu, Deunydd Ysgrifennu ac ati. | 40,430 |
| 4,240 | Hysbysebu | 640 |
| 718,560 | Grantiau a Thanysgrifiadau | 131,610 |
| 172,890 | Gwasanaethau a Ddefnyddir a Gwasanaethau Proffesiynol Eraill | 151,890 |
| 58,530 | Cyfathrebu / Cyfrifiadura | 50,440 |
| 3,900 | Treuliau Staff | 2,500 |
| 1,786,740 | Grantiau Blynyddoedd Cynnar a Darpariaeth ADY | 2,848,440 |
| 50 | Yswiriant | 50 |
| 2,750,430 | Costau Refeniw Menter Cyllid Preifat Maesteg | 2,841,110 |
| | **Taliadau Trydydd Parti** | |
| 1,622,490 | Awdurdodau Lleol a Chydbwyllgorau Eraill | 664,630 |
| 2,026,250 | Sefydliadau Gwirfoddol | 1,796,250 |
| 54,230 | Contractwyr Allanol | 54,540 |
| | **Gwasanaethau Cymorth** | |
| 600 | Gweinyddiaeth Adrannol | - |
| | **Costau Ariannu Cyfalaf** | |
| 900,960 | Ad-daliadau Benthyca Darbodus | 900,960 |
| **40,680,620** | **Cyfanswm Gwariant** | **38,510,880** |
| | **Incwm** | |
| (4,269,550) | Grantiau | (944,110) |
| (1,229,190) | Ad-daliadau a Chyfraniadau Eraill | (1,229,190) |
| (3,843,330) | Derbyniadau Cwsmeriaid / Cleientiaid | (3,843,330) |
| (1,121,550) | Ailgodi Taliadau i Gyfarwyddiaethau Eraill (Mewnol) | (841,250) |
| **(10,463,620)** | **Cyfanswm Incwm** | **(6,857,880)** |
| | | |
| **30,217,000** | **Cyfanswm: Addysg Ganolog, Blynyddoedd Cynnar A Phobl Ifanc** | **31,653,000** |

### 3.4.1.3 **Cyllideb ddirprwyedig yr ysgol: math o wariant**

| **Math o Ysgol** | **Cyllideb Net 2025/2026 £** |
|---|---|
| Cynradd | 59,561,170 |
| Uwchradd | 51,951,130 |
| Arbennig | 11,696,700 |
| **Cyfanswm** | **123,209,000** |

| **Cyllideb Net 2024/2025 £** | **CYLLIDEBAU YSGOLION DIRPRWYEDIG** | **Cyllideb Net 2025/2026 £** |
|---|---|---|
| | **Cyflogeion** | |
| 82,176,510 | Athrawon | 90,990,600 |
| 28,767,090 | Swyddogion | 30,373,400 |
| 80,300 | Arweinwyr Ieuenctid | 83,310 |
| 1,751,020 | Staff Asiantaeth | 1,751,020 |
| 108,200 | Treuliau Gweithwyr Anuniongyrchol | 108,200 |
| | **Gwariant sy'n Gysylltiedig â Safleoedd** | |
| 1,226,500 | Gwaith Atgyweirio a Chynnal a Chadw | 1,226,500 |
| 186,520 | Cynnal a Chadw'r Tir | 186,520 |
| 2,358,690 | Costau Ynni | 4,101,160 |
| 79,000 | Rhenti | 79,000 |
| 2,245,880 | Ardrethi Busnes / Y Dreth Gyngor | 2,326,880 |
| 333,930 | Gwasanaethau Dŵr | 333,930 |
| 138,400 | Gosodiadau a Ffitiadau | 138,400 |
| 797,700 | Cyflenwadau Domestig a Glanhau | 797,700 |
| 34,300 | Yswiriant Safleoedd | 34,300 |
| 88,000 | Costau Eraill sy'n Gysylltiedig â Safleoedd | 88,000 |
| | **Costau sy'n Gysylltiedig â Thrafnidiaeth** | |
| 30,950 | Costau Trafnidiaeth Uniongyrchol | 30,950 |
| 500 | Llogi Gwasanaethau Fflyd | 500 |
| 187,500 | Llogi Contract a Lesio Gweithredol | 187,500 |
| 4,680 | Trafnidiaeth Gyhoeddus | 4,680 |
| 15,700 | Yswiriant Trafnidiaeth | 15,700 |
| 29,600 | Lwfans Ceir | 29,600 |

| Cyllideb Net 2024/2025 £ | CYLLIDEBAU YSGOLION DIRPRWYEDIG (parhad) | Cyllideb Net 2025/2026 £ |
|---:|---|---:|
| | **Cyflenwadau a Gwasanaethau** | |
| 3,336,900 | Offer, Deunyddiau a Dodrefn | 3,336,900 |
| 4,709,660 | Arlwyo | 4,715,610 |
| 2,700 | Dillad, Gwisgoedd, Golchdy | 2,700 |
| 329,100 | Argraffu, Deunydd Ysgrifennu ac ati. | 329,100 |
| 7,000 | Hysbysebu | 7,000 |
| 28,800 | Grantiau a Thanysgrifiadau | 28,800 |
| 153,700 | Gwasanaethau a Ddefnyddir a Gwasanaethau Proffesiynol Eraill | 153,700 |
| 1,081,500 | Cyfathrebu / Cyfrifiadura | 1,081,500 |
| 2,705,560 | Cytundebau Lefel Gwasanaeth | 2,705,560 |
| 8,900 | Ffioedd Cynadleddau | 8,900 |
| 79,100 | Yswiriant | 79,100 |
| | **Taliadau Trydydd Parti** | |
| 20,000 | Awdurdodau Lleol a Chydbwyllgorau Eraill | 20,000 |
| 1,382,100 | Contractwyr Allanol | 1,443,020 |
| 200 | Priffyrdd - Diogelwch a Chymhorthion | 200 |
| | **Taliadau Trosglwyddo** | |
| 83,800 | Grantiau Dillad | 83,800 |
| **134,569,990** | **Cyfanswm Gwariant** | **146,883,740** |
| | **Incwm** | |
| (16,039,320) | Grantiau | (18,412,070) |
| (1,425,760) | Ad-daliadau a Chyfraniadau Eraill | (1,425,760) |
| (3,704,270) | Derbyniadau Cwsmeriaid / Cleientiaid | (3,704,270) |
| (8,300) | Llog | (8,300) |
| (90,000) | Ailgodi Tâl i Gyfarwyddiaethau Eraill (Mewnol) | (90,000) |
| (34,340) | Trosglwyddiadau wedi'u Clustnodi sy'n Gysylltiedig â Chronfeydd Wrth Gefn | (34,340) |
| **(21,301,990)** | **Cyfanswm Incwm** | **(23,674,740)** |
| | | |
| **113,268,000** | **Cyfanswm: Cyllidebau Ysgolion Dirprwyedig** | **123,209,000** |

### 3.4.2 Trosolwg o wasanaethau cymdeithasol a llesiant

Ar ôl Addysg, maes gwariant mwyaf y Cyngor yw gofal cymdeithasol. Mae hyn yn cynnwys gwaith cymdeithasol a gofal cymdeithasol i blant ac i oedolion ag anghenion gofal a chymorth Yn y Gyfarwyddiaeth rhoddir pwyslais ar atal a llesiant, ymarfer sy'n seiliedig ar gryfderau, gweithio gyda phartneriaid i wella'r 'system gyfan,' a chefnogi ein gweithlu. Am flynyddoedd lawer, deallwyd y gall gweithio fel hyn arwain at lai o ddibyniaeth ar wasanaethau gofal cymdeithasol a gomisiynir i lawer o unigolion a defnydd mwy effeithiol a chost effeithiol o wasanaethau statudol Hefyd, mae tystiolaeth mewn adroddiadau monitro cyllideb ac alldro bod perfformiad ariannol gwasanaethau cymdeithasol wedi dibynnu'n fawr ar gyllid grant tymor byr sy'n gwrthbwyso diffygion mewn cyllidebau craidd i ddiwallu anghenion y boblogaeth agored i niwed. Er bod y Gyfarwyddiaeth yn parhau i ddatblygu dulliau newydd o ddarparu gwasanaethau, ac mae hyn yn cynnwys gwell cymorth a chanlyniadau drwy wasanaethau atal, ymyrraeth gynnar a llesiant, mae hyn yn fwy heriol nag erioed gyda chynnydd o ran nifer a chymhlethdod. Mae cynlluniau strategol 3 blynedd yn cael eu gweithredu ar gyfer plant a theuluoedd ac oedolion a gofalwyr sy'n arwain at fwy o sefydlogrwydd y gweithlu a gwell integreiddio o ran gwasanaethau ataliol sy'n lleihau'r galw statudol. Mae ymarfer yn canolbwyntio ar gryfderau a'r hyn y gall pobl ei wneud, yn hytrach na model diffyg. Fodd bynnag, mae poblogaeth Pen-y-bont ar Ogwr yn tyfu'n gyflym, y trydydd twf cyflymaf mewn unrhyw Awdurdod Lleol yng Nghymru, ac mae hyn yn golygu bod nifer y bobl sydd ag anghenion gofal a chymorth yn cynyddu hefyd. Ni ellir atal yr holl anghenion gofal a chymorth a bydd gan y rhai sydd ag anghenion cymwys amrywiaeth o gydafiacheddau a chymhlethdodau sy'n gofyn am lefelau uwch o gymorth. Yn ogystal, mae cryn her ar 'ochr gyflenwi' gofal cymdeithasol o ran effaith costau cyflog a chostau nad ydynt yn ymwneud â chyflog i ddarparu swm ac ansawdd y gofal sy'n ofynnol. Mae gan y Cyngor swyddogaeth gomisiynu gadarn ac effeithiol sy'n sicrhau gwerth gorau ac ansawdd gwasanaethau gofal cymdeithasol.

Cymeradwyodd y Cyngor gynllun cynaliadwyedd 3 blynedd ar gyfer plant a theuluoedd ym mis Medi 2023. Mae cynnydd da wedi'i wneud o ran datblygu'r camau gweithredu a nodwyd yn y cynllun, gyda gostyngiad sylweddol yn nifer y gweithlu asiantaeth, ymgorffori Arwyddion Diogelwch fel y model ymarfer gwaith cymdeithasol a'r gostyngiadau cynaliadwy o ganlyniad i hynny o ran nifer y plant sy'n destun cofrestru amddiffyn plant a nifer y plant â phrofiad o fod mewn gofal. Mae heriau'n parhau: mae cysylltiadau â gofal cymdeithasol plant wedi parhau i gynyddu'n aruthrol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ac mae anghenion y plant â phrofiad o fod mewn gofal yn fwy cymhleth ac mae angen lefelau uwch o ofal a chymorth arnynt. Bu gostyngiad hefyd yn nifer y gofalwyr maeth mewnol a diffyg o ran digonolrwydd gofal preswyl gan arwain at rai plant yn cael eu lletya am beth amser mewn lleoliadau sy'n gweithredu heb gofrestru. Mae'r heriau lleoli hyn yn arwain at bwysau cost sylweddol i'r Cyngor, gan eu bod fel arfer ar gost uwch na darparwyr cofrestredig ac felly'n arwain at wariant uwch i'r Cyngor –. Mae strategaeth comisiynu lleoliadau sydd wedi'i datblygu ar gais Llywodraeth Cymru, yn nodi bylchau buddsoddi cyfalaf a refeniw i'r Cyngor ddatblygu darpariaeth nid er elw ddigonol i sicrhau digonolrwydd er mwyn cydymffurfio â'r gofynion deddfwriaethol newydd i ddileu elw o ofal cymdeithasol plant.

Maes arall o bwysau yw nifer a chymhlethdod yr angen am wasanaethau gofal cymdeithasol statudol gan boblogaeth agored i niwed y fwrdeistref sirol. Mae cynllun strategol 3 blynedd, 'Adeiladu ar Gryfderau, Gwella Bywydau - Cynllun Tair Blynedd ar gyfer Gofal a Chymorth Cynaliadwy i Oedolion yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr', wedi'i ddatblygu sy'n nodi'r model gweithredu, cynllun gweithlu, model ymarfer a dull atal a llesiant i gynorthwyo pobl agored i niwed mewn modd ataliol i fyw'n dda mor annibynnol â phosibl. Mae ymarfer yn parhau i fod yn seiliedig ar gryfderau a meini prawf cymhwystra yn cael eu cymhwyso'n drylwyr mewn gwasanaethau oedolion. Mae'r cynllun hwn yn ceisio rheoli a lliniaru cyn belled ag y bo modd, y gwasanaeth a phwysau ariannol yn y gwasanaeth. Mae pwysau'n arbennig o amlwg mewn gwasanaethau anabledd dysgu, gwasanaethau iechyd meddwl a gwasanaethau i bobl hyn. Mae cynllun trawsnewid anabledd dysgu wedi'i ddatblygu ac mae camau gweithredu yn mynd rhagddynt drwy raglen i sicrhau bod pecynnau gofal yn rhai'r maint iawn am y pris iawn ac yn trawsnewid gweithgareddau yn ystod y dydd. Mae gwaith wedi'i wneud i ailosod ailalluogi a lleihau'n sylweddol nifer y bobl sy'n symud ymlaen i becyn gofal a chymorth gartref hirdymor heb gael y cyfle i sicrhau eu hannibyniaeth fwyaf posibl ac i'r pecyn gofal fod y maint cywir, cyn dechrau gwasanaeth hirdymor.

Mae'r costau ochr gyflenwi ar gyfer darparwyr gofal a gomisiynir (cartref, preswyl a nyrsio) sy'n gysylltiedig â chwyddiant (mae bwyd a thanwydd yn arbennig o drawiadol), yr angen i gynyddu cyflogau staff i gystadlu â manwerthu a lletygarwch, a'r ddibyniaeth gynyddol ar staff asiantaeth (yn enwedig nyrsys cofrestredig), wedi golygu bod rhai cynghorau wedi nodi eu bod yn gorfod edrych ar gymhwyso cynnydd cyffredinol yn eu ffioedd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Ledled y DU mae nifer bach o ddarparwyr yn wynebu anawsterau ariannol ac mae posibilrwydd y byddant yn gadael y farchnad mewn gwasanaethau oedolion a phlant a fydd yn rhoi mwy o bwysau ar gyllidebau'r Cyngor oherwydd bydd y Cyngor bob amser yn ddarparwr rhwyd ddiogelwch mewn amgylchiadau o'r fath.

Mae gwasanaethau atal a llesiant ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn arloesol ac yn arwain y sector. Mae'r bartneriaeth gydag ymddiriedolaeth hamdden Halo wedi sicrhau arbedion sylweddol ers ei sefydlu. Cytunodd y Cabinet i ymestyn y contract i sicrhau gwell gwerth am arian ac archwilio model gweithredu asiantaeth a ddylai hefyd gynyddu cynaliadwyedd. Mae opsiynau ar gyfer ailfodelu'r gwasanaethau a ddarperir gan Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen yn cael eu harchwilio.

Y strategaeth ar gyfer y blynyddoedd nesaf yw ymgorffori ymarfer sy'n seiliedig ar gryfder a chefnogi unigolion a theuluoedd i fyw eu bywydau gorau, gan ailfodelu'r ffordd rydym yn gweithio er mwyn darparu gwasanaethau a dulliau gweithredu sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau sy'n galluogi pobl i wneud y mwyaf o'u hannibyniaeth a'u teuluoedd i aros gyda'i gilydd gyda chymorth wedi'i dargedu lle y bo angen, wrth ddatblygu strategaethau comisiynu a chynlluniau'r gweithlu sy'n sicrhau bod y person cywir yn darparu'r ymyrraeth a'r cymorth cywir yn y ffordd fwyaf amserol ac ataliol. Mae'r model ymarfer Arwyddion Diogelwch mewn gofal cymdeithasol plant, ac ymarfer sy'n seiliedig ar gryfderau ac sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau mewn gofal cymdeithasol oedolion, yn darparu'r sail ar gyfer 'gwneud y peth iawn' sydd bron bob amser y trywydd gweithredu mwyaf cost effeithiol. Mae angen i'r cynnydd mewn anghenion a chymhlethdod gan blant ac oedolion agored i niwed gael ei ddeall a'i adlewyrchu mewn trawsnewid gwasanaethau a chynllunio ariannol cydgysylltiedig a fynegir drwy gynlluniau cynaliadwyedd. Mae'r buddsoddiad parhaus mewn gwasanaethau atal a llesiant yn helpu i liniaru'r angen am rai gwasanaethau gofal cymdeithasol a chynorthwyo mwy o bobl i fyw'n dda ac mor annibynnol â phosibl.

3.4.2.1 **Gwasanaethau cymdeithasol a llesiant: gwasanaethau a ddarperir**

| Cyllideb Net 2024/2025 £ | GWASANAETHAU CYMDEITHASOL A LLESIANT | Cyllideb Net 2025/2026 £ |
|---:|---|---:|
| | **Gofal Cymdeithasol i Oedolion** | |
| 29,543,450 | Pobl Hŷn | 28,480,300 |
| 5,944,300 | Anabledd Corfforol Oedolion / Nam ar y Synhwyrau | 5,925,800 |
| 25,082,500 | Anableddau Dysgu Oedolion | 27,281,090 |
| 5,399,000 | Anghenion Iechyd Meddwl Oedolion | 6,065,510 |
| 815,290 | Gwasanaethau Camddefnyddio Sylweddau ac Iechyd Meddwl | 139,190 |
| - | Asesu a Rheoli Gofal | 4,637,190 |
| 4,327,950 | Rheoli Llesiant, Gweinyddu Canolog a Hyfforddiant | 4,622,610 |
| **71,112,490** | **Is-gyfanswm** | **77,151,690** |
| | **Atal a Llesiant** | |
| 5,819,460 | Hamdden a Chwaraeon | 5,861,830 |
| **5,819,460** | **Is-gyfanswm** | **5,861,830** |
| | **Gwasanaethau Plant** | |
| 27,643,050 | Gwasanaethau Plant | 32,895,480 |
| **27,643,050** | **Is-gyfanswm** | **32,895,480** |
| | | |
| **104,575,000** | **Cyfanswm: Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant** | **115,909,000** |

3.4.2.2 **Cyllideb gwasanaethau cymdeithasol a llesiant: math o wariant**

| Cyllideb Net 2024/2025 £ | GWASANAETHAU CYMDEITHASOL A LLESIANT | Cyllideb Net 2025/2026 £ |
|---:|---|---:|
| | **Cyflogeion** | |
| 590,310 | Prif Swyddogion | 609,780 |
| 48,645,370 | Swyddogion | 52,061,720 |
| 294,360 | Treuliau Gweithwyr Anuniongyrchol | 351,390 |
| 43,780 | Gweithio Oddi Ar y Gyflogres (IR35) | 46,390 |
| | **Gwariant sy'n Gysylltiedig â Safleoedd** | |
| 386,890 | Gwaith Atgyweirio a Chynnal a Chadw | 416,890 |
| 17,000 | Cynnal a Chadw'r Tir | - |
| 43,190 | Costau Ynni | 43,190 |
| 253,250 | Rhenti | 272,700 |
| 15,970 | Ardrethi Busnes / Y Dreth Gyngor | 16,970 |
| 16,950 | Gwasanaethau Dŵr | 16,950 |
| 1,000 | Gosodiadau a Ffitiadau | - |
| 21,150 | Cyflenwadau Domestig a Glanhau | 31,650 |
| 53,930 | Costau Adeiladau a Rennir | 53,930 |
| 167,250 | Costau Eraill sy'n Gysylltiedig â Safleoedd | 143,850 |
| | **Costau sy'n Gysylltiedig â Thrafnidiaeth** | |
| 58,540 | Costau Trafnidiaeth Uniongyrchol | 58,540 |
| 204,110 | Llogi Gwasanaethau Fflyd | 204,110 |
| 168,760 | Llogi a Phrydlesu Cerbydau | 197,730 |
| 20,420 | Treuliau Teithio | 21,230 |
| 461,060 | Lwfans Ceir | 448,530 |
| | **Cyflenwadau a Gwasanaethau** | |
| 651,260 | Offer, Deunyddiau a Dodrefn | 703,480 |
| 556,460 | Arlwyo | 568,580 |
| 24,650 | Dillad, Gwisgoedd, Golchdy | 19,650 |
| 80,500 | Argraffu, Deunydd Ysgrifennu ac ati. | 82,860 |
| 30,000 | Hysbysebu | 30,000 |
| 638,010 | Gwasanaethau a Ddefnyddiwyd a Gwasanaethau Proffesiynol Eraill gan gynnwys rheolaeth chwaraeon | 567,520 |
| 955,770 | Gwasanaethau a Ddefnyddir a Gwasanaethau Proffesiynol Eraill | 907,420 |
| 194,510 | Cyfathrebu / Cyfrifiadura | 180,900 |
| 80,260 | Cyflenwadau a Gwasanaethau Amrywiol | 86,970 |

| Cyllideb Net 2024/2025 £ | GWASANAETHAU CYMDEITHASOL A LLESIANT (parhad) | Cyllideb Net 2025/2026 £ |
|---:|---|---:|
| | **Taliadau Trydydd Parti** | |
| 3,051,640 | Awdurdodau Lleol a Chydbwyllgorau Eraill | 3,511,400 |
| 5,120,860 | Sefydliadau Gwirfoddol | 8,488,840 |
| 54,767,000 | Prynu Pecynnau Gofal (Allanol) | 59,755,120 |
| 5,306,140 | Maethu, Mabwysiadu, Gorchmynion Gwarcheidiaeth Arbennig | 5,661,760 |
| 219,040 | Plant sy'n Derbyn Gofal, Gofal a Thaliadau Cymorth | 214,070 |
| 7,011,330 | Taliadau Uniongyrchol | 7,916,840 |
| | **Costau Ariannu Cyfalaf** | |
| 145,000 | Ad-daliadau Benthyca Darbodus | 145,000 |
| **130,295,720** | **Cyfanswm Gwariant** | **143,835,960** |
| | **Incwm** | |
| (4,815,650) | Incwm | (6,195,930) |
| (7,950,130) | Grantiau | (8,072,990) |
| (12,215,120) | Ad-daliadau a Chyfraniadau Eraill | (12,998,450) |
| (136,810) | Derbyniadau Cwsmeriaid / Cleientiaid | (136,810) |
| (603,010) | Ailgodi Tâl i Gyfarwyddiaethau Eraill (Mewnol) | (522,780) |
| **(25,720,720)** | **Cyfanswm Incwm** | **(27,926,960)** |
| | | |
| **104,575,000** | **Cyfanswm: Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant** | **115,909,000** |

### 3.4.3 **Trosolwg o gymunedau**

#### 3.4.3.1 **Tir y Cyhoedd**

Mae gan waith y Cyngor ar dir y cyhoedd effaith uniongyrchol a gweladwy ar bawb. Mae hyn yn cynnwys ein gwaith i gynnal a chadw priffyrdd, parciau a mannau agored, glanhau ein strydoedd, a chasglu a gwaredu ein gwastraff. Yn 2025-26 mae'r Cyngor yn debygol o dderbyn tua £3.5 miliwn o grant uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer gwasanaethau tir y cyhoedd. Mae hyn yn cynnwys gwasanaethau gwastraff, trafnidiaeth gyhoeddus, hawliau tramwy a diogelwch ar y ffyrdd.

Y gyllideb net gyffredinol y mae'r Cyngor yn bwriadu ei gwario ar wasanaethau tir y cyhoedd yw tua £27 miliwn. Mae'r ffaith bod ysgolion a gwasanaethau cymdeithasol wedi cael lefel uchel o ddiogelwch ariannol mewn blynyddoedd blaenorol wedi golygu y bu gwasanaethau eraill y Cyngor o dan bwysau sylweddol i wneud arbedion ac, mewn llawer o achosion, rydym wedi gorfod lleihau lefelau gwasanaeth. Fodd bynnag, mae'r gwasanaethau yn y Gyfarwyddiaeth Cymunedau hefyd wedi bod yn destun newidiadau i wasanaethau sydd wedi arwain at fodelau darparu amgen sydd wedi cynyddu cynhyrchiant, yn ogystal â dulliau cydweithredol sydd wedi cynyddu effeithlonrwydd a gwydnwch gwasanaethau. Bwriedir parhau i fuddsoddi yn y maes hwn yn 2025-26.

Daeth y contract casglu gwastraff saith mlynedd gyda Kier i ben ym mis Mawrth 2024 a chaffael contract interim newydd gyda Chynllun B am gyfnod o ddwy flynedd. Mae hyn yn defnyddio'r cerbydlu a'r fethodoleg casglu presennol. Mae'r Cyngor bellach yn y broses o benderfynu ar ei fodel gwasanaethau gwastraff ar gyfer y dyfodol o 2026 ymlaen, gyda'r penderfyniad wedi'i wneud yn y cyfarfod Cabinet ar 19 Tachwedd 2024 i ddod â'r gwasanaeth yn ôl o dan reolaeth y Cyngor. Mae Pen-y-bont ar Ogwr wedi'i enwi fel yr awdurdod gwastraff sy'n perfformio orau yng Nghymru, gyda chyfraddau ailgylchu dros 73%. Bu gostyngiad sylweddol yn swm ein gwastraff gweddilliol, a disgwylir i hyn fod o fudd ariannol i'r Cyngor dros amser, yn amodol ar amodau cytundebol gyda'n trefniadau gwaredu. Fodd bynnag, mae pob Cyngor wedi gweld mwy o wastraff domestig cyffredinol oherwydd y nifer uchel o bobl sy'n parhau i weithio gartref yn dilyn y pandemig. Cafodd trefniadau gweithredu newydd am gost is eu negodi yn y Ganolfan Adfer Deunyddiau ac Ynni (MREC) yn 2019-20 ac mae cytundeb gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot wedi'i wneud ar gyfer gwaredu gwastraff yn y dyfodol tan 2030 neu nes y bydd cyfleuster rhanbarthol yn weithredol. Disgwyliwn wario tua £11 miliwn ar gasglu a gwaredu gwastraff yn 2025-26. Her fawr i'r Cyngor yw sut i barhau i fodloni disgwyliadau'r cyhoedd ar gyfer llawer o wasanaethau gweladwy a diriaethol iawn pan fo gostyngiad yng nghyllideb gyffredinol y Cyngor yn anochel yn golygu y bydd y Cyngor yn methu darparu'r gwasanaethau hyn i'r un lefel ac amlder. Yn aml, y gwasanaethau hyn yw'r rhai y mae'r cyhoedd yn eu cysylltu â'u taliadau treth gyngor. Yn gynyddol, bydd y Cyngor yn ceisio galluogi a hwyluso partneriaethau er mwyn helpu i ddarparu rhai gwasanaethau, gan gynnwys ymgysylltu mwy ystyrlon â thrigolion lleol ynghylch y rôl y gallant ei chwarae wrth weithio'n effeithiol gyda ni.

Strategaeth y Cyngor yw cadw a chynnal y gwasanaethau cyhoeddus pwysicaf yn y maes hwn wrth ysgogi effeithlonrwydd cynyddol, gan wneud rhai gostyngiadau mewn gwasanaethau lle credwn y bydd yn cael yr effaith leiaf ar draws gwasanaethau'r Cyngor, gan gydnabod y gallai hyn fod yn sylweddol o hyd mewn rhai meysydd. Byddwn hefyd yn datblygu ffyrdd eraill o ddarparu a chynnal gwasanaethau gan gynnwys mwy o gydweithio a chydweithio mwy effeithiol ac annog eraill i weithio gyda ni neu gymryd cyfrifoldeb uniongyrchol am wasanaethau mewn rhai achosion. Y newid arfaethedig mwyaf arwyddocaol yn hyn o beth yw symud y cyfrifoldeb am reoli a chynnal a chadw meysydd a phafiliynau chwaraeon o'r Cyngor i glybiau a grwpiau defnyddwyr neu gynghorau tref a chymuned lleol. Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu dull hyblyg o drosglwyddo asedau cymunedol (CAT), gan ddefnyddio proses CAT symlach, a sicrhau bod cyngor priodol a buddsoddiad cyfalaf (o'r gronfa CAT yn y rhaglen gyfalaf) ac yn flaenorol cymorth refeniw (gan y gronfa cymorth clybiau chwaraeon) ar gael. Mae'r Cyngor wedi cyflawni arbedion sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf yn sgil trosglwyddo'r asedau hyn ac mae'n gobeithio parhau â'r cyfeiriad teithio hwn wrth symud ymlaen. Bydd gostyngiadau mewn gwariant yn y maes hwn yn ein galluogi i ddiogelu ein buddsoddiad ym mlaenoriaethau'r Cyngor ac mewn meysydd lle mae gennym lawer llai o allu i arfer rheolaeth.

3.4.3.2 **Cefnogi'r economi**

Er bod hyn yn flaenoriaeth i'r Cyngor, mae gwasanaethau megis adfywio a datblygu economaidd, fel gwasanaethau dewisol, wedi gorfod gwneud gostyngiadau sylweddol i'w cyllidebau dros y blynyddoedd diwethaf. Mae'r Cyngor wedi cyflawni hyn drwy gyflogi llai o staff ond staff sy'n fwy medrus, a chanolbwyntio gweithgarwch yn fwy cyfyng ar feysydd â blaenoriaeth er mwyn cael yr effaith fwyaf posibl. Wrth symud ymlaen, bydd yn parhau i gydweithio ar sail ranbarthol â'r naw Cyngor arall sy'n ffurfio Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd (CCR) gan ei fod bellach wedi symud i Gyd-bwyllgor Corfforedig (CJC) statudol ym mis Ebrill 2024. Mae gan y CJC gyfrifoldeb am ddatblygu rhanbarthol ac, yn benodol, meysydd trafnidiaeth strategol, datblygu economaidd rhanbarthol a chynllunio strategol. Bydd y Cyngor yn parhau i weithio gyda chydweithwyr yn rhanbarthol a'r CJC i ddeall sut y bydd cyfrifoldebau'n cael eu rhannu rhwng y rhanbarth ac awdurdodau lleol i sicrhau'r canlyniadau mwyaf effeithiol yn gyffredinol. Creodd y Fargen Ddinesig gronfa gwerth £1.2 biliwn i'w buddsoddi yn y rhanbarth am 20 mlynedd, a bwriad y CJC bellach yw parhau â'r gwaith hwn. Bydd hyn yn cynnwys buddsoddiadau hirdymor sy'n canolbwyntio ar godi ffyniant economaidd, cynyddu rhagolygon swyddi a gwella cysylltedd digidol a thrafnidiaeth.

Er mwyn chwarae rhan effeithiol yn y Cyd-Bwyllgor Corfforedig, bydd y Cyngor yn cynnal cymaint â phosibl o'r buddsoddiad presennol yn ei dimau cynllunio trafnidiaeth, cynllunio gofodol ac adfywio i adlewyrchu'r cyfeiriad teithio hwn. Bydd y Cyngor yn gwario tua £2.5 miliwn y flwyddyn ar redeg y gwasanaethau hyn. Bydd y timau hyn yn sicrhau bod prosiectau adfywio proffil uchel yn cael eu cyflawni'n llwyddiannus, gan gynnwys y prosiectau adfywio niferus ym Mhorthcawl ac ailddatblygu Heol Ewenni ym Maesteg at ddibenion tai a chyflogaeth, lle mae gwaith adfer y safle yn mynd rhagddo ac yn cael ei ariannu gan Grant Hyfywedd Tai gwerth £3.5 miliwn gan CCR. Yn ogystal, drwy ei raglen Metro, cafodd cyfleuster bysiau Metrolink Porthcawl gwerth £3.8 miliwn ei gwblhau a'i agor ym mis Tachwedd 2024. Mae cwblhau gwaith ailddatblygu ac adnewyddu gwerth £10 miliwn yn Neuadd y Dref Maesteg ym mis Tachwedd 2024, wedi dod â chyfleusterau cymunedol, cerddoriaeth, perfformio a llyfrgell o'r radd flaenaf i galon Cwm Llynfi, a bydd yn diogelu'r adeilad rhestredig 141 mlwydd oed hwn ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Mabwysiadodd y Cyngor hefyd y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) Newydd ym mis Mawrth 2024.

Ni yw'r awdurdod lleol cyntaf yng Nghymru i gymeradwyo CDLl, dogfen cynllunio strategol fawr, ers y pandemig. Rhan bwysig o'n cynllunio cyllideb yw sicrhau ei fod yn cael adnoddau priodol i sicrhau bod ein cynllun yn destun ymchwil a thystiolaeth briodol ac yn nodi'r cynigion cynllunio datblygu ar gyfer y Fwrdeistref Sirol a fydd yn llunio ei dyfodol, gan gynnwys twf tai. Mae tua £116 miliwn o gyfraniadau Adran 106 a fydd yn dod i law o'n CDLl newydd ac mae'r rhain yn hanfodol ar gyfer darparu seilwaith newydd o ansawdd uchel, fel ffyrdd, ysgolion newydd, tai a chyfleusterau chwarae mewn ardaloedd datblygu yn y Fwrdeistref.

Cafodd y Cynllun Datblygu Lleol Newydd ei fabwysiadu gan y Cyngor ym mis Ebrill 2024, yn dilyn Archwiliad Cyhoeddus gan yr Arolygiaeth Gynllunio, ac mae bellach yn darparu canllawiau cynllunio tir strategol ar gyfer y Fwrdeistref. Yn fwy penodol, mae'r Cyngor wedi gwneud ac yn parhau i wneud cynnydd da wrth geisio datblygu ein prif drefi. Mae'r rhain yn cynnwys adfywio'r glannau ym Mhorthcawl, gan gynnwys safle Salt Lake, ailddatblygu Neuadd y Dref Maesteg, fel y nodwyd uchod, a buddsoddi mewn mentrau i wella canol y dref ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Mae hyn yn cynnwys datblygu Campws Coleg Penybont newydd gwerth £80 miliwn ar hen safle gorsaf yr heddlu yn Cheapside, yng nghanol y dref. Dechreuodd y gwaith adeiladu ym mis Mai 2024 a rhagwelir y bydd adeilad y coleg wedi'i gwblhau erbyn hydref 2026. Bydd y Cyngor yn parhau i weithredu nifer o raglenni gwaith a ariennir gan grant i gefnogi ein grwpiau mwyaf agored i niwed a'r rhai sydd bellaf i ffwrdd oddi wrth gyflogaeth, gan gynnwys hyfforddiant a sgiliau a rhaglenni cymorth gwaith o dan raglen Cyflogadwyedd Pen-y-bont ar Ogwr. Dyfarnwyd dros £20 miliwn i'r Cyngor o'r Gronfa Ffyniant Gyffredin (SPF) hyd at fis Mawrth 2025 i ymgymryd â rhaglenni amrywiol gyda phartneriaid ar draws y Sir, gan gynnwys hyfforddiant a grantiau cychwyn busnes newydd. Bydd yr SPF yn cael ei ymestyn am flwyddyn bontio yn 2025-26, cyn diwygio ehangach ar gyllid twf lleol. Fodd bynnag, mae hyn ar lefel sydd tua 40% yn is na chyllideb y flwyddyn bresennol. Yn ogystal, roedd y cais am gyllid gwerth £18 miliwn i Gronfa Ffyniant Bro Llywodraeth y DU ar gyfer adnewyddu ac adfer Pafiliwn y Grand ym Mhorthcawl yn llwyddiannus. Mae Caniatâd Cynllunio wedi'i roi, mae contract galluogi i glirio'r adeilad wedi'i gwblhau ac mae'r tendr ar gyfer y prif waith adeiladu bellach yn cael ei gynnal. Mae'n debygol y bydd contractwr ar gyfer y gwaith yn cael ei gaffael yng ngwanwyn 2025.

3.4.3.3 **Cymunedau: gwasanaethau a ddarperir**

| Cyllideb Net 2024/2025 £ | CYMUNEDAU | Cyllideb Net 2025/2026 £ |
|---:|---|---:|
| | **Landlord Corfforaethol** | |
| 87,190 | Rheoli Landlord Corfforaethol | 88,960 |
| 696,573 | Cyfanswm Rheoli Cyfleusterau | 738,020 |
| 1,806,327 | Rheoli Asedau Strategol | 2,528,260 |
| 48,790 | Dylunio a Darparu Cyfalaf | 19,270 |
| 109,000 | Trosglwyddo Asedau Cymunedol | 109,000 |
| **2,747,880** | **Is-gyfanswm** | **3,483,510** |
| | **Rheoli Strategol** | |
| 279,440 | Rheoli Strategol | 286,390 |
| **279,440** | **Is-gyfanswm** | **286,390** |
| | **Gwasanaethau Cynllunio a Datblygu** | |
| (82,830) | Rheoli Datblygu | (332,640) |
| 907,310 | Cynllunio Datblygu | 1,315,550 |
| 81,840 | Rheoli Adeiladu | 95,530 |
| (274,590) | Polisïau a Datblygiad Priffyrdd | (274,590) |
| **631,730** | **Is-gyfanswm** | **803,850** |
| | **Adfywio Strategol** | |
| 115,740 | Cadwraeth a Dylunio | 116,990 |
| 680,750 | Prosiectau a Dulliau Adfywio | 661,420 |
| 136,200 | Cyllid Adfywio ac Ymgysylltu | 140,410 |
| **932,690** | **Is-gyfanswm** | **918,820** |
| | **Yr Economi, Adnoddau Naturiol a Chynaliadwyedd** | |
| 581,050 | Ymateb i'r Newid yn yr Hinsawdd | 735,420 |
| 226,000 | Rheoli Cefn Gwlad | 228,850 |
| 456,640 | Cadernid a Thwf Economaidd | 466,540 |
| 77,090 | Cyflogadwyedd a Mentergarwch | 78,600 |
| 71,730 | Gwasanaethau Morol ac Arfordirol | 76,050 |
| **1,412,510** | **Is-gyfanswm** | **1,585,460** |

| Cyllideb Net 2024/2025 £ | CYMUNEDAU (parhad) | Cyllideb Net 2025/2026 £ |
|---|---|---|
| | **Strydoedd Glanach a Rheoli Gwastraff** | |
| 447,430 | Gorfodaeth | 304,550 |
| 1,779,490 | Glanhau Arall | 1,821,370 |
| 3,873,860 | Gwaredu Gwastraff | 3,992,280 |
| 6,830,620 | Casglu Gwastraff | 7,174,770 |
| **12,931,400** | **Is-gyfanswm** | **13,292,970** |
| | **Priffyrdd a Mannau Gwyrdd** | |
| 8,282,770 | Priffyrdd | 8,985,150 |
| 156,440 | Gwasanaethau Fflyd | 183,950 |
| 810,230 | Traffig a Thrafnidiaeth | 1,318,670 |
| 125,290 | Gwasanaethau Peirianneg | 165,590 |
| 2,393,343 | Parciau, Meysydd Chwarae a Gwasanaethau Profedigaeth | 2,729,640 |
| **11,768,073** | **Is-gyfanswm** | **13,383,000** |
| | | |
| **30,703,723** | **Cyfanswm: Cymunedau** | **33,754,000** |

3.4.3.4 **Cyllideb cymunedau: math o wariant**

| Cyllideb Net 2024/2025 £ | CYMUNEDAU | Cyllideb Net 2025/2026 £ |
|---|---|---|
| | **Cyflogeion** | |
| 659,020 | Prif Swyddogion | 681,070 |
| 21,092,353 | Swyddogion | 23,904,250 |
| 503,530 | Staff Asiantaeth | 367,000 |
| 12,720 | Treuliau Gweithwyr Anuniongyrchol | 15,220 |
| | **Gwariant sy'n Gysylltiedig â Safleoedd** | |
| 1,892,860 | Gwaith Atgyweirio a Chynnal a Chadw | 1,788,820 |
| 170,220 | Cynnal a Chadw'r Tir | 486,990 |
| 630,830 | Costau Ynni | 1,043,290 |
| 500,110 | Rhenti | 446,210 |
| 797,480 | Ardrethi Busnes / Y Dreth Gyngor | 1,032,940 |
| 109,590 | Gwasanaethau Dŵr | 117,290 |
| 7,150 | Gosodiadau a Ffitiadau | 7,150 |
| 322,950 | Cyflenwadau Domestig a Glanhau | 404,350 |
| 2,500 | Costau Adeiladau a Rennir | 2,500 |
| 14,050 | Yswiriant Safleoedd | 14,050 |
| 74,117 | Costau Eraill sy'n Gysylltiedig â Safleoedd | 80,350 |
| | **Costau sy'n Gysylltiedig â Thrafnidiaeth** | |
| 1,025,780 | Costau Trafnidiaeth Uniongyrchol | 1,074,790 |
| 176,870 | Llogi Gwasanaethau Fflyd | 176,870 |
| 4,628,520 | Tocynnau Teithio Consesiynol a Grantiau Trafnidiaeth | 6,146,620 |
| 4,700 | Trafnidiaeth Gyhoeddus | 3,640 |
| 455,360 | Lwfans Ceir | 415,480 |
| | **Cyflenwadau a Gwasanaethau** | |
| 2,088,690 | Offer, Deunyddiau a Dodrefn | 2,057,920 |
| 7,400 | Arlwyo | 7,400 |
| 17,250 | Dillad, Gwisgoedd, Golchdy | 29,710 |
| 82,860 | Argraffu, Deunydd Ysgrifennu ac ati. | 87,770 |
| 101,490 | Hysbysebu | 105,120 |
| 620,683 | Grantiau a Thanysgrifiadau | 813,510 |
| 3,809,650 | Gwasanaethau a Ddefnyddir a Gwasanaethau Proffesiynol Eraill | 3,940,440 |
| 263,850 | Cyfathrebu / Cyfrifiadura | 285,430 |
| 2,500 | Treuliau Staff e.e. ffioedd cynadleddau | 2,150 |
| 417,760 | Cyflenwadau a Gwasanaethau Amrywiol | 948,960 |

| Cyllideb Net 2024/2025 £ | CYMUNEDAU (parhad) | Cyllideb Net 2025/2026 £ |
|---:|---|---:|
| | **Taliadau Trydydd Parti** | |
| 153,400 | Sefydliadau Gwasanaethau Uniongyrchol (DLO) | 157,630 |
| 175,720 | Awdurdodau Lleol a Chydbwyllgorau Eraill | 252,270 |
| 101,320 | Sefydliadau Gwirfoddol | 101,320 |
| 17,675,860 | Contractwyr | 20,622,760 |
| 787,930 | Priffyrdd - Strwythurol | 1,047,810 |
| 75,700 | Priffyrdd - Cylchol | 80,700 |
| 161,580 | Priffyrdd - Diogelwch a Chymhorthion | 172,630 |
| 289,910 | Priffyrdd - Cynnal a Chadw'r Gaeaf | 306,150 |
| 801,260 | Priffyrdd - Goleuadau Stryd | 1,231,750 |
| 30,220 | Priffyrdd - Arolygon Technegol | 190,220 |
| | **Gwasanaethau Cymorth** | |
| 25,000 | Gweinyddiaeth Adrannol | 25,000 |
| | **Costau Ariannu Cyfalaf** | |
| 1,828,540 | Ad-daliadau Benthyca Darbodus | 1,897,970 |
| **62,599,283** | **Cyfanswm Gwariant** | **72,573,500** |
| | **Incwm** | |
| (8,903,410) | Grantiau * | (16,240,530) |
| (182,120) | Ad-daliadau a Chyfraniadau Eraill | (224,900) |
| (14,537,430) | Derbyniadau Cwsmeriaid / Cleientiaid | (14,672,410) |
| (5,054,130) | Ailgodi Tâl i Gyfarwyddiaethau Eraill (Mewnol) | (4,881,350) |
| (3,218,470) | Cronfeydd wrth Gefn a Glustnodwyd | (2,800,310) |
| **(31,895,560)** | **Cyfanswm Incwm** | **(38,819,500)** |
| | | |
| **30,703,723** | **Cyfanswm: Cymunedau** | **33,754,000** |

* Dim ond yn rhannol y caiff grant y Gronfa Ffyniant Gyffredin (SPF) ei adlewyrchu yng nghyllideb 2024-25

### 3.4.4 Trosolwg y Prif Weithredwr

3.4.4.1 Mae'r maes gwasanaeth yn chwarae rhan allweddol fel darparwr gwasanaethau rheng flaen (e.e. Treth y Cyngor, Budd-daliadau, Digartrefedd a Thai) a gwasanaethau cymorth mewnol ar draws y Cyngor. Mae nifer o doriadau arfaethedig yn y gyllideb ar gyfer 2025-26 a bydd pob un ohonynt yn ei gwneud yn fwy anodd cefnogi gwasanaethau rheng flaen ac yn fwy anodd lleihau amseroedd ymateb, gan olygu bod angen canolbwyntio mwy ar flaenoriaethau.

Cyflawnir y swyddogaethau canlynol o fewn y maes gwasanaeth:

- **Cyllid**
  Mae gan y Cyngor dîm canolog sy'n rheoli holl reolaeth ariannol y Cyngor. Mae hyn yn cynnwys cyngor strategol lefel uchel, cyfrifon y Cyngor, monitro perfformiad ariannol a chefnogi'r gwaith o oruchwylio a rheoli cyllid y Cyngor. Mae'r gwasanaeth yn bodloni rhai gofynion cyfreithiol sy'n sicrhau tryloywder ac atebolrwydd yn y ffordd y defnyddir arian cyhoeddus er enghraifft wrth gynhyrchu cyfrifon sy'n cael eu harchwilio ac wrth sicrhau gwerth am arian wrth ddarparu gwasanaethau.

  Bydd yr adran gyllid yn ceisio gwella prosesau busnes ymhellach er mwyn gwella effeithlonrwydd a bodloni newidiadau deddfwriaethol hefyd. Mae cynnydd sylweddol wedi'i wneud wrth awtomeiddio taliadau a bydd y Cyngor yn parhau i ddatblygu ac ymestyn hyn i amrywiaeth ehangach o gyflenwyr.

- **Archwilio Mewnol**
  Caiff ein Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol ei ddarparu gan gydwasanaeth yr ydym yn ei rannu gyda Chynghorau Bro Morgannwg a Merthyr. Mae'r gwasanaeth yn cynnal gwiriadau ac ymchwiliadau rheolaidd i sicrhau bod y Cyngor yn dal i lywodraethu'n dda - yn enwedig o ran atebolrwydd priodol am arian ac adnoddau eraill. Bydd y gwasanaeth hefyd yn gwneud darnau o waith untro arbenigol os bydd angen.

- **Adnoddau Dynol (AD) a Datblygiad Sefydliadol (OD)**
  Gyda thros 6,000 o weithwyr, gan gynnwys ysgolion, mae ar y Cyngor angen gwasanaeth adnoddau dynol pwrpasol. Prif rôl y gwasanaeth yw darparu cyngor proffesiynol, arweiniad a chefnogaeth i reolwyr a staff ar ystod eang o faterion Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol yn ogystal â darparu gwasanaethau AD ar gyfer talu cyflogau, pensiwn, contractau a gweinyddu absenoldeb. Mae gwasanaethau eraill yn cynnwys hyfforddi a datblygu, recriwtio a chadw, datblygu sgiliau gweithwyr yn ogystal â 'meithrin ein gweithwyr ein hunain' drwy ein cynlluniau i Raddedigion a Phrentisiaethau.

  Gan weithio'n agos gyda'n hundebau llafur cydnabyddedig, rydym yn cynnal trefniadau cysylltu cadarnhaol a thryloyw gyda'r gweithwyr.

  Yn gyffredinol, mae'r problemau gweithlu sylweddol y mae'r Cyngor yn eu hwynebu wedi arwain at gynnydd sylweddol yn y galw am y gwasanaethau hyn; mae hyn yn debygol o barhau i'r flwyddyn ariannol newydd wrth i dimau gael eu hailstrwythuro ac ystyried ffyrdd newydd o weithio.

- **TGCh**
  Rydym yn parhau i fuddsoddi mewn awtomeiddio a digideiddio gwasanaethau yn unol â'n Strategaeth Ddigidol ac mae gwaith yn mynd rhagddo i nodi meysydd blaenoriaeth drwy'r Rhaglen Trawsnewid Digidol. Bydd hyn yn gymorth i gyflawni arbedion yn y blynyddoedd i ddod, drwy ddatblygu a digideiddio prosesau llawn gwybodaeth, gan ryddhau capasiti a gwneud arbedion effeithlonrwydd. Byddwn hefyd yn archwilio'r defnydd o Ddeallusrwydd Artiffisial e.e. ym maes gofal cymdeithasol, i sicrhau effeithlonrwydd gwasanaethau, lle y bo'n briodol.

  Mae'r gwasanaeth TGCh yn cynorthwyo'r Rhaglen Trawsnewid Digidol, gan gefnogi newidiadau ar draws ystod o wasanaethau sydd yn eu tro yn gwneud arbedion neu welliannau yn bosibl drwy weithio mwy hyblyg neu ffyrdd newydd o gael mynediad at wasanaethau. Mae'r Cyngor yn gwario tua £4.4 miliwn ar ei ddarpariaeth gwasanaethau TGCh i gefnogi prif weithgareddau ac ysgolion y Cyngor. Mae'r gwasanaeth TGCh wedi canolbwyntio ar ddatblygu staff drwy'r rhaglen brentisiaeth ar y cyd ag AD, gan ddatblygu sgiliau a gwneud dilyniant gyrfa fewnol yn bosibl.

- **Tai a Digartrefedd**
  Mae tai fel un o benderfynyddion iechyd corfforol a meddyliol yn cael ei gydnabod yn eang ac mae'r cysylltiad hwn yn cael ei atgyfnerthu gan yr amrywiaeth o weithgareddau a gwasanaethau a ddarperir gan y Tîm Tai. Cyflwynodd Deddf Tai (Cymru) 2014 yr angen i symud i ddull mwy ataliol o ran digartrefedd ac mae hon yn egwyddor graidd gwaith a wneir. Mae'r gwasanaeth wedi ymateb i heriau Covid-19 a chanllawiau newydd a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â chyflwyniadau digartrefedd ac mae eisoes wedi cydnabod y rhain fel pwysau cyllidebol ar y Cyngor. Y nod yw darparu llety dros dro i bobl sydd mewn angen, er mwyn lleihau nifer y bobl ddigartref ar y stryd Nid oes gan y Cyngor ei stoc tai ei hun ond mae'n cadw nifer o swyddogaethau statudol sy'n ymwneud â delio â'r angen am dai a mynd i'r afael â digartrefedd.

  Mae nifer o heriau allweddol sy'n wynebu'r Cyngor wrth ddarparu gwasanaethau tai a digartrefedd. Mae ceisiadau am lety dros dro oherwydd digartrefedd yn gyson uwch o gymharu â blynyddoedd blaenorol. Ar ddiwedd 2019-20, roedd y Cyngor yn darparu llety dros dro i 83 o aelwydydd. Ar ddiwedd mis Hydref 2024 roedd hyn wedi cynyddu i 248 o aelwydydd, sy'n gynnydd o 199% dros y cyfnod hwn. Yn aml mae gan unigolion mewn llety dros dro anghenion cymorth sylweddol, o ran mynd i'r afael â'u hanghenion tai neu gynnal llety. Amcangyfrifir bod angen rhyw lefel o gymorth mewn mwy na dau faes ar tua 47% o aelwydydd mewn llety dros dro. Mae'r cynnydd mewn lleoliadau llety dros dro wedi arwain at bwysau cost sylweddol i'r Cyngor.

  Bydd yr Adran Dai yn parhau i fabwysiadu dull strategol o atal digartrefedd a'r ddarpariaeth ar ei gyfer drwy weithio gyda Llywodraeth Cymru a sefydliadau partner. Mae gwaith yn mynd rhagddo gyda Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig i gefnogi datblygiadau tai newydd a bydd yr adran dai yn parhau i ddefnyddio'r Grant Tai Cymdeithasol yn effeithiol i gynyddu'r cyflenwad o dai cymdeithasol. Ar hyn o bryd rydym yn y broses o brynu nifer o Dai Amlfeddiannaeth er mwyn lleihau ein dibyniaeth ar y sector gosod gwyliau a darparu gwell llety i'r rhai mewn angen.

- **Gwasanaethau Cyfreithiol**
  Mae angen i'r Cyngor gynnal cefnogaeth gyfreithiol effeithiol ar gyfer ei holl wasanaethau. Ar adeg pan mae'r Cyngor yn ceisio trawsnewid gwasanaethau mae'n bwysig creu'r newidiadau hyn yn gyfreithlon. Mae'r gwasanaeth hefyd yn cefnogi gwasanaethau rheng flaen yn uniongyrchol megis Addysg a Gwasanaethau Cymdeithasol, ac fe'i darperir gan gyfuniad o staff mewnol parhaol ynghyd ag arbenigedd allanol pan fo angen. Mae bron hanner ein tîm cyfreithiol mewnol yn canolbwyntio'n benodol ar achosion amddiffyn plant. Mae'r achosion hyn wedi cynyddu mewn nifer a chymhlethdod dros y blynyddoedd diwethaf. Mae'r gwasanaeth yn ddarbodus iawn a bydd angen iddo flaenoriaethu llwyth achosion ar sail asesiad risg.

- **Gwasanaethau Democrataidd**
  Mae'r Cyngor yn sefydliad democrataidd gyda 51 o aelodau etholedig (Cynghorwyr) sy'n gwneud penderfyniadau, yn gosod cyfeiriad polisi ac yn goruchwylio perfformiad cyffredinol y Cyngor. Pennir nifer yr aelodau etholedig ym mhob awdurdod yn annibynnol. Caiff eu tâl hefyd ei bennu gan banel annibynnol. Mae tîm y Gwasanaethau Democrataidd yn cefnogi pob Aelod ac yn sicrhau bod trefniadau priodol ar waith i gydymffurfio â gofynion deddfwriaethol.

- **Caffael**
  Mae gan y Cyngor dîm canolog sy'n darparu cymorth caffael ar draws yr ystod o wasanaethau a ddarparwn. Mae caffael effeithiol yn hanfodol i sicrhau gwerth da am arian ar draws y Cyngor. Mae'r tîm canolog yn gweithio gyda gwasanaethau i sicrhau arbedion ar draws y gorfforaeth lle y bo'n briodol. Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu Strategaeth Gaffael Gorfforaethol sy'n cefnogi nifer o flaenoriaethau corfforaethol. Mae cynnydd parhaus yng nghostau nwyddau a gwasanaethau oherwydd pwysau chwyddiant, cynnydd mewn costau tanwydd a phrinder yn y gadwyn gyflenwi. Mae llawer o dendrau yn cael eu dychwelyd sydd dros y gyllideb gymeradwy sy'n arwain at waith ychwanegol i ailredeg y broses.

- **Gwasanaethau Rheoleiddio**
  Mae hwn yn wasanaeth ar y cyd â Chynghorau Bro Morgannwg a Dinas Caerdydd, a bydd Pen-y-bont ar Ogwr yn cyfrannu tua £1.8 miliwn tuag at grŵp o wasanaethau sy'n cynnwys Safonau Masnach, Iechyd yr Amgylchedd, Iechyd Anifeiliaid a Thrwyddedu (Alcohol, Gamblo, Diogelwch mewn Meysydd Chwaraeon, Tacsis ac ati). Mae'r gwasanaethau hyn i gyd yn sicrhau, mewn gwahanol ffyrdd, bod y cyhoedd yn cael ei amddiffyn. Yn ogystal â galluogi ar gyfer arbedion ariannol, mae'r cydweithredu'n cyflwyno mwy o wydnwch yn y gwasanaeth a diogelwch cryfach i'r cyhoedd ar draws pob un o dair ardal y Cyngor.

- **Cofrestryddion**
  Mae'r Cyngor yn gweithredu gwasanaeth Cofrestrydd sy'n ymdrin yn bennaf â chofrestru Genedigaethau, Priodasau a Marwolaethau. Mae'r gwasanaeth hefyd yn cynnal seremonïau Partneriaeth Sifil a Dinasyddiaeth ac yn darparu cyfleuster tystysgrifau newydd.

- **Treth y Cyngor a budd-daliadau**
  Yn 2025-26 bydd y gwasanaeth trethiant yn ceisio casglu £131 miliwn mewn treth gyngor oddi wrth dros 66,000 o aelwydydd ar draws y fwrdeistref sirol ar ran y Cyngor, Comisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru a'n Cynghorau Tref a Chymuned. Effeithiwyd ar ein cyfraddau casglu yn y blynyddoedd diwethaf, yn gyntaf gan bandemig Covid-19, yna gan yr argyfwng costau byw. Rydym yn benderfynol o adennill y lefel uchel o gasglu a gyrhaeddwyd cyn 2020, ond rydym hefyd yn achub ar y cyfle i leihau cost rhedeg y gwasanaeth, drwy gynnig gwasanaethau ar-lein.

  Ariennir budd-daliadau gan lywodraeth ganolog y DU. Cyfrifoldeb y Cyngor yw gweinyddu Budd-dal Tai a Chynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor. Mae'r Gwasanaeth Budd-daliadau hefyd yn gweinyddu ceisiadau am Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl, Cinio Ysgol Am Ddim a Grantiau Gwisg Ysgol Gwahanol.

3.4.4.2 **Prif weithredwr: Gwasanaethau a ddarperir**

| Cyllideb Net 2024/2025 £ | PRIF WEITHREDWR | Cyllideb Net 2025/2026 £ |
|---:|---|---:|
| | **Uned y Prif Weithredwr** | |
| 488,590 | Uned y Prif Weithredwr | 413,210 |
| **488,590** | **Is-gyfanswm** | **413,210** |
| | **Cyllid** | |
| 243,670 | Archwiliad mewnol | 260,770 |
| 3,538,740 | Cyllid | 3,945,800 |
| **3,782,410** | **Is-gyfanswm** | **4,206,570** |
| | **Adnoddau Dynol / Datblygu Sefydliadol** | |
| 1,869,280 | Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol | 1,805,220 |
| **1,869,280** | **Is-gyfanswm** | **1,805,220** |
| | **Partneriaethau** | |
| 439,730 | Trawsnewid | 473,930 |
| 1,663,500 | Gwasanaethau Cwsmeriaid ac Ymgysylltu | 1,734,330 |
| **2,103,230** | **Is-gyfanswm** | **2,208,260** |

| Cyllideb Net 2024/2025 £ | PRIF WEITHREDWR (parhad) | Cyllideb Net 2025/2026 £ |
|---|---|---|
| | **Cyfreithiol, Democrataidd a Rheoleiddiol** | |
| 2,154,130 | Gwasanaethau Cyfreithiol | 2,377,450 |
| 1,807,420 | Gwasanaethau Democrataidd | 1,903,940 |
| 264,950 | Caffael | 302,910 |
| 1,478,910 | Gwasanaethau Rheoleiddio | 1,390,940 |
| **5,705,410** | **Is-gyfanswm** | **5,975,240** |
| | **TGCh** | |
| 3,766,370 | TGCh | 4,096,350 |
| **3,766,370** | **Is-gyfanswm** | **4,096,350** |
| | **Etholiadau** | |
| 175,860 | Etholiadau | 182,370 |
| **175,860** | **Is-gyfanswm** | **182,370** |
| | **Tai a Digartrefedd** | |
| 3,487,830 | Tai ac Adfywio Cymunedol | 4,801,100 |
| **3,487,830** | **Is-gyfanswm** | **4,801,100** |
| | **Cymorth Busnes** | |
| 1,046,020 | Uned Fusnes | 1,126,680 |
| **1,046,020** | **Is-gyfanswm** | **1,126,680** |
| | | |
| **22,425,000** | **Cyfanswm: Prif Weithredwr** | **24,815,000** |

3.4.4.3 **Cyllideb y Prif Weithredwr: math o warian**

| Cyllideb Net 2024/2025 £ | PRIF WEITHREDWR | Cyllideb Net 2025/2026 £ |
|---|---|---|
| | **Cyflogeion** | |
| 201,390 | Prif Weithredwr | 195,040 |
| 401,270 | Prif Swyddogion | 421,490 |
| 17,294,200 | Swyddogion | 18,343,540 |
| 1,348,250 | Aelodau | 1,486,320 |
| 6,000 | Staff Asiantaeth | 66,000 |
| 3,060 | Hyfforddiant Staff | 3,060 |
| | **Gwariant sy'n Gysylltiedig â Safleoedd** | |
| 20,500 | Gwaith Atgyweirio a Chynnal a Chadw | 20,500 |
| 12,010 | Costau Ynni | 12,010 |
| 5,400 | Rhenti | 5,400 |
| 2,290 | Ardrethi Busnes / Y Dreth Gyngor | 2,290 |
| 100 | Gwasanaethau Dŵr | 100 |
| 1,070 | Gosodiadau a Ffitiadau | 1,070 |
| 4,080 | Costau Adeiladau a Rennir | 4,080 |
| 15,710 | Costau Eraill sy'n Gysylltiedig â Safleoedd | 15,710 |
| | **Costau sy'n Gysylltiedig â Thrafnidiaeth** | |
| 59,330 | Costau Rhedeg Cerbydau Uniongyrchol gan Gynnwys Atgyweiriadau a Milltiroedd | 59,330 |
| 22,500 | Llogi a Phrydlesu Cerbydau | 22,500 |
| 7,160 | Treuliau Teithio | 7,160 |
| 19,500 | Lwfans Ceir | 19,500 |
| | **Cyflenwadau a Gwasanaethau** | |
| 208,640 | Offer, Deunyddiau a Dodrefn | 208,640 |
| 910 | Arlwyo | 910 |
| 770 | Dillad, Gwisgoedd, Golchdy | 770 |
| 221,560 | Argraffu, Deunydd Ysgrifennu ac ati. | 221,560 |
| 43,170 | Hysbysebu | 43,170 |
| 171,200 | Grantiau a Thanysgrifiadau | 171,200 |
| 1,945,360 | Gwasanaethau a Ddefnyddir a Gwasanaethau Proffesiynol Eraill | 2,224,080 |
| 2,909,790 | Cyfathrebu / Cyfrifiadura | 3,225,300 |
| 1,100 | Treuliau Staff e.e. ffioedd cynadleddau | 1,100 |
| 2,641,720 | Atebion Tai, Meddalwedd a Datblygu | 3,705,700 |
| 139,690 | Hyfforddiant a Gwariant | 134,690 |
| 5,000 | Maer – Cronfa Lletygarwch | 5,000 |

| Cyllideb Net 2024/2025 £ | PRIF WEITHREDWR (parhad) | Cyllideb Net 2025/2026 £ |
|---:|---|---:|
| | **Taliadau Trydydd Parti** | |
| 2,254,710 | Awdurdodau Lleol a Chydbwyllgorau Eraill | 2,179,890 |
| 194,280 | Sefydliadau Gwirfoddol | 194,280 |
| 6,187,070 | Cefnogi Pobl a Chontractwyr Allanol | 6,187,070 |
| 33,364,230 | Budd-daliadau Tai | 33,522,230 |
| **69,713,020** | **Cyfanswm Gwariant** | **72,710,690** |
| | **Incwm** | |
| (42,345,070) | Grantiau | (42,923,790) |
| (1,328,470) | Ad-daliadau a Chyfraniadau Eraill | (1,338,830) |
| (1,302,740) | Derbyniadau Cwsmeriaid / Cleientiaid | (1,302,740) |
| (1,701,700) | Ad-daliadau i Gyfarwyddiaethau a Gwasanaethau Eraill | (1,715,280) |
| (610,040) | Trosglwyddiadau o'r Cronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd | (615,050) |
| **(47,288,020)** | **Cyfanswm Incwm** | **(47,895,690)** |
| | | |
| **22,425,000** | **Cyfanswm: Prif Weithredwr** | **24,815,000** |

### 3.4.5 **Cyllidebau ar draws y Cyngor**

3.4.5.1 Mae Cyllidebau ar draws y Cyngor yn cynrychioli'r elfennau hynny o wariant sy'n berthnasol i'r Cyngor drwyddo draw ac na ellir eu priodoli'n uniongyrchol i unrhyw wasanaeth penodol.

| Cyllideb Net 2024/2025 £ | AR DRAWS Y CYNGOR | Cyllideb Net 2025/2026 £ |
|---:|---|---:|
| | **Cyllidebau ar draws y Cyngor** | |
| 7,052,110 | Cyllid Cyfalaf | 5,958,000 |
| 10,384,860 | Ardollau | 10,958,259 |
| 24,628,724 | Gwasanaethau Eraill y Cyngor Cyfan | 18,552,766 |
| 16,054,000 | Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor | 17,054,000 |
| 1,363,000 | Premiymau Yswiriant | 1,363,000 |
| **59,482,694** | **Cyfanswm: Ar Draws y Cyngor** | **53,886,025** |

3.4.5.2 **Cyllideb ar draws y Cyngor: math o wariant**

| Cyllideb Net 2024/2025 £ | CYLLIDEBAU AR DRAWS Y CYNGOR | Cyllideb Net 2025/2026 £ |
|---:|---|---:|
| | **Cyflogeion** | |
| 430,000 | Cyn-gostau Pensiwn Cyngor Sir Morgannwg Ganol | 430,000 |
| | **Gwariant sy'n Gysylltiedig â Safleoedd** | |
| 420,000 | Cynnal a Chadw Adeiladau | 420,000 |
| 445,000 | Yswiriant Eiddo | 470,000 |
| | **Costau sy'n Gysylltiedig â Thrafnidiaeth** | |
| 97,000 | Yswiriant Trafnidiaeth | 119,000 |
| | **Cyflenwadau a Gwasanaethau** | |
| 47,154 | Hysbysebu | 47,000 |
| 285,000 | Ffioedd Mewnol Cynnal a Chadw Adeiladau a Ffioedd Rheoli Hawliadau Yswiriant | 285,000 |
| 23,690,270 | Darpariaethau a gedwir yn ganolog ar gyfer codiadau cyflog a phrisiau a chostau eraill na ellir eu hosgoi | 17,531,466 |
| 204,000 | Rhyddhad Dewisol Ardreth Annomestig Genedlaethol | 204,000 |
| 750,000 | Ardoll Prentisiaethau | 750,000 |
| 379,000 | Premiymau Yswiriant | 441,000 |
| | **Taliadau Trydydd Parti** | |
| 9,634,860 | Ardollau (gan gynnwys Ardoll y Gwasanaeth Tân) | 10,208,259 |
| | **Taliadau Trosglwyddo** | |
| 16,054,000 | Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor | 17,054,000 |
| | **Costau Ariannu Cyfalaf** | |
| 5,167,050 | Taliadau Llog | 5,073,050 |
| 3,253,910 | Isafswm Darpariaeth Refeniw | 2,253,800 |
| **60,857,244** | **Cyfanswm Gwariant** | **55,286,575** |
| | **Incwm** | |
| (1,368,850) | Llog | (1,368,850) |
| (5,700) | Ailgodi Tâl i Gyfarwyddiaethau Eraill (Mewnol) | (31,700) |
| **(1,374,550)** | **Cyfanswm Incwm** | **(1,400,550)** |
| | | |
| **59,482,694** | **Cyfanswm: Gwasanaethau Ar Draws y Cyngor** | **53,886,025** |

# Adran 4

## Cyllideb gyfalaf
## 2025-26

# Adran 4: Cyllideb gyfalaf 2025-26

## 4.1 Cyllideb gyfalaf 2025-26

4.1.1 Yn ogystal â gwario arian ar ddarparu gwasanaethau o ddydd i ddydd, mae’r Cyngor yn gwario arian hefyd ar ddarparu cyfleusterau newydd, gwella asedau a’r seilwaith neu ddarparu grantiau cyfalaf i unigolion a chyrff allanol. Mae’r Gyllideb Gyfalaf yn cynnwys gwariant ar nifer o brosiectau buddsoddi strategol sylweddol yn y fwrdeistref sirol.



Mae prif faes gwariant ar brosiectau cyfalaf arfaethedig ar gyfer 2025-26 yn cynnwys:

- Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu (Band B)
- Pafiliwn y Grand Porthcawl
- Grantiau Cyfleusterau i’r Anabl a chynlluniau addasu tai eraill
- Cronfa Ffyniant Gyffredin i gefnogi buddsoddiad lleol.
- Adnewyddu Meysydd Chwarae
- Adnewyddu Priffyrdd

## 4.2 Ariannu'r rhaglen gyfalaf

4.2.1 £124.863 miliwn yw cost ariannu'r Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2025-26, fel y nodir yn y tabl isod:

| Cyllid | 2025-26 £'M | % |
|---|---|---|
| Cyllid Cyfalaf Cyffredinol - Benthyca â Chymorth | 3.810 | 3.05 |
| Cyllid Cyfalaf Cyffredinol - Grant Cyfalaf Cyffredinol | 4.772 | 3.82 |
| Grantiau a Chyfraniadau Allanol | 67.838 | 54.33 |
| Benthyca Darbodus (heb gymorth) | 13.536 | 10.84 |
| Derbyniadau Cyfalaf | 14.239 | 11.40 |
| Cronfeydd wrth Gefn a Glustnodwyd | 20.667 | 16.55 |
| Cyfraniad Refeniw | 0.001 | 0.01 |
| **Cyfanswm Cyllid** | **124.863** | **100** |

## 4.3 Dyraniad y gyllideb gyfalaf

4.3.1 Dyrannwyd y Gyllideb Gyfalaf o £124.863 miliwn fel a ganlyn:

| Meysydd Gwasanaeth | 2025-26 £'M | % |
|---|---|---|
| Addysg, Blynyddoedd Cynnar a Phobl Ifanc (Gan gynnwys ysgolion) | 82.781 | 66.30 |
| Cymunedau – Y Gwasanaethau Stryd | 8.165 | 6.54 |
| Cymunedau – Adfywio a Datblygu | 24.838 | 19.89 |
| Cymunedau – Landlord Corfforaethol | 4.721 | 3.78 |
| Prif Weithredwr – TGCh | 0.400 | 0.32 |
| Prif Weithredwr – Tai / Digartrefedd | 2.530 | 2.03 |
| Cyllidebau Cyfalaf Ar Draws y Cyngor | 1.428 | 1.14 |
| **Cyfanswm** | **124.863** | **100** |

# Adran 5

## Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr – ystadegau allweddol

# Adran 5: Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr – ystadegau allweddol

## 5.1 Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

5.1.1. Mae'r adran hon yn rhoi manylion yr ystadegau allweddol ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

| Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr | |
|---|---|
| Maint | 96.83 milltir sgwâr |
| Poblogaeth (Amcangyfrif 2022) | 146,136 |
| Aelwydydd | 66,011 |
| Pris Tŷ Cyfartalog | £209,123 (Pen-y-bont ar Ogwr)<br>£213,477 (Cymru)<br>(Mynegai Prisiau Tai Cymru y DU: Mehefin 2023) |
| Busnesau Gweithredol | 4,545 |
| Canran y Boblogaeth sy'n Economaidd Weithgar* | 70.5% (medi 2023) |



Cynyddodd poblogaeth Pen-y-bont ar Ogwr o 146,135 i 146,743, sef symudiad o 608 o bobl rhwng 2022 a 2023.

Ar 30 Mehefin 2023, Pen-y-bont ar Ogwr oedd y seithfed ardal awdurdod lleol fwyaf poblog o blith 22 awdurdod lleol Cymru, gyda'r hyn sy'n cyfateb i 585.1 o bobl fesul cilomedr sgwâr.

Mae twf yn y boblogaeth yn golygu mwy o alw am wasanaethau'r Cyngor, gan gynnwys tai, addysg, gwasanaethau amgylcheddol a gofal cymdeithasol. Mae lefel diweithdra hefyd yn allweddol wrth bennu'r galw am fudd-daliadau a ariennir gan y Cyngor fel gostyngiadau'r dreth gyngor neu gonsesiynau wrth dalu am wasanaethau'r Cyngor.

| Cipolwg ar Ben-y-bont ar Ogwr | |
|---|---|
| **Yr Etholaeth** | |
| Cyfanswm yr Etholwyr ar y Gofrestr (2 Ionawr 2025) | 115,581 |
| **Cynrychiolaeth** | |
| Wardiau | 28 |
| Cynghorwyr | 51 |
| Aelodau Etholaethol y Senedd | 2 |
| Aelodau Rhanbarthol y Senedd | 4 (Gorllewin De Cymru) |
| Aelodau Seneddol | 3 |

## 5.2 Ystadegau gwasanaeth

5.2.1 Mae'r tablau canlynol yn rhoi manylion ystadegau gwasanaeth ar gyfer Addysg, Blynyddoedd Cynnar a Phobl Ifanc:

### Addysg, Blynyddoedd Cynnar a Phobl Ifanc


| Poblogaeth disgyblion Ionawr 2024 | Rhifau Disgybl |
|---|---|
| Meithrin (2 - 4 oed) | 1,579 |
| Derbyn (4 - 5 oed) | 1,453 |
| Cynradd Bl 1 – Bl 6 (5 - 11 oed) | 9,623 |
| Uwchradd Bl 7 i Bl 11 (11 - 16 oed) | 8,525 |
| Uwchradd Bl 12 (16 - 17 oed) | 821 |
| Uwchradd Bl 13 (17 - 18 oed) | 596 |
| (18 - 19 oed) | 19 |

Mae gan y Cyngor gyfanswm o 59 o ysgolion (ysgolion babanod, iau, cynradd, uwchradd ac arbennig, cyfrwng Cymraeg ac ysgolion ffydd) gyda thua 22,616 o ddisgyblion.

| Math o sefydliad addysgol | Nifer | Nifer ar y gofrestr (Ion 2024) |
|---|---|---|
| Ysgolion cynradd (gan gynnwys 2 faban ac 1 iau) | 48 | 12,524 |
| Ysgolion uwchradd | 9 | 9,591 |
| | | |
| Ysgolion ffydd (gan gynnwys uchod) | 6 | 1,853 |
| Ysgolion cyfrwng Cymraeg (gan gynnwys uchod) | 5 | 1,665 |
| | | |
| Ysgolion arbennig | 2 | 439 |
| Uned cyfeirio disgyblion | 1 | 62 |

5.2.2 Mae'r tablau canlynol yn rhoi manylion ystadegau gwasanaeth ar gyfer gwasanaethau'r Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant.

## Gwariant Refeniw Net - Oedolion sy'n Derbyn Gwasanaethau yn ôl Grŵp Oedran £'000




| Gwasanaethau Plant a Ddarperir | Nifer y Plant** 31 Mawrth 2023 | Nifer y Plant** 31 Mawrth 2024 |
|---|---|---|
| Cyfanswm y Plant sy'n Derbyn Gofal yn ôl math o leoliad: | 400 | 370 |
| Lleoliadau maeth | 280 | 240 |
| Wedi'u lleoli i'w mabwysiadu | 5 | 10 |
| Cartrefi Preswyl | 35 | 45 |
| Wedi'u lleoli gyda'u rhieni eu hunain neu gydag unigolyn arall sydd â chyfrifoldeb rhiant | 75 | 70 |
| Byw'n Annibynnol | * | * |
| Arall | * | * |

** Mae'r holl ffigurau wedi'u talgrynnu i'r pump agosaf. Os oes llai na phump o blant mewn unrhyw grŵp, nid yw'r nifer wirioneddol wedi'i nodi, ac mae'r symbol * wedi'i roi yn lle rhif. Ffynhonnell Data: StatsCymru.

5.2.3 Mae’r tablau canlynol yn rhoi manylion ystadegau gwasanaeth ar gyfer gwasanaethau Cymunedau:

## Gwasanaethau ar gyfer Cymunedau

Darperir y data diweddaraf sydd ar gael ar gyfer cymunedau yn y tabl isod:

| Gwasanaeth | Data Ystadegol |
|---|---|
| **Y Gwasanaethau stryd** | |
| Nifer y ceisiadau cynllunio a gafwyd yn 2023-24 | 670 |
| Cyfanswm unedau goleuadau stryd | 19,666 |
| Cilogramau o wastraff gweddilliol a gynhyrchir fesul person 2023-24 (2022-23 target 133KG) | 135 |
| Canran y gwastraff sy’n cael ei ailddefnyddio, ei ailgylchu neu ei gompostio (rhagolwg 2024-25) (2023-24 72.8%) | 73% |
| Canran y gwastraff glanhau strydoedd a baratowyd i’w ailgylchu (rhagolwg 2024-25) | 41% |
| **Trafnidiaeth a Pheirianneg** | |
| Hyd ffordd sirol (km) | 104 |
| Hyd ffordd sirol A mewn ardal adeiledig (km) | 52 |
| Hyd ffordd B a C (km) | 139 |
| Hyd ffordd B a C mewn ardal adeiledig (km) | 83 |
| Hyd isffordd â wyneb caled (km) | 546 |
| Hyd is-ffordd â wyneb caled mewn ardal adeiledig (km) | 444 |

5.2.4 Mae'r tabl canlynol yn rhoi manylion ystadegau gwasanaethau ar gyfer gwasanaethau'r Prif Weithredwr:

## Prif Weithredwr


| Gwasanaeth | Data Ystadegol |
|---|---|
| **Gwasanaethau Rheoleiddio** | |
| Nifer y Safleoedd Masnachu ym mis Mawrth 2024 | 5,110 |
| Nifer y Safleoedd Bwyd ym mis Mawrth 2024 | 1,780 |
| **Gwasanaethau Cwsmeriaid** | |
| Nifer y cwsmeriaid a gysylltodd â'r Ganolfan Cyswllt Cwsmeriaid dros y ffôn rhwng 1 Ionawr 2024 a 31 Rhagfyr 2024 | 77,116 |
| Nifer y cwsmeriaid a gysylltodd â'r Ganolfan Cyswllt Cwsmeriaid drwy e-bost rhwng 1 Ionawr 2024 a 31 Rhagfyr 2024 | 11,779 |
| Nifer y trafodion a gynhaliwyd ar-lein gan gwsmeriaid rhwng 1 Ionawr 2024 a 31 Rhagfyr 2024 | 83,781 |
| **Gwasanaethau cyfreithiol a Democrataidd** | |
| Nifer y priodasau a gofrestrwyd rhwng 1 Ionawr 2024 a 31 Rhagfyr 2024 | 436 |
| Nifer y safleoedd priodas newydd sydd wedi'u trwyddedu | 1 |
| Nifer y Trwyddedau Safle newydd a gyhoeddwyd rhwng 1 Ionawr 2024 a 31 Rhagfyr 2024 | 27 |
| Nifer y trwyddedau Personol newydd i werthu alcohol a gyhoeddwyd rhwng 1 Ionawr 2024 a 31 Rhagfyr 2024 | 63 |
| **Adnoddau Dynol** | |
| Gweithlu corfforaethol cyfwerth ag amser llawn ar 31.12.2024 | 2,379.41 |
| Gweithlu ysgolion cyfwerth ag amser llawn ar 31.12.2024 | 2,152.20 |

Nid oes gan y Cyngor unrhyw stoc tai ei hun ond mae'n cadw nifer o swyddogaethau statudol sy'n ymwneud â mynd i'r afael â'r angen am dai ac ymdrin â digartrefedd. Mae'r Cyngor yn parhau i fabwysiadu dull strategol o atal digartrefedd a chynnig darpariaeth ar gyfer pobl ddigartref drwy gydweithio â Llywodraeth Cymru a sefydliadau partner a gweithio gyda Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig i gefnogi datblygiadau tai newydd.

Ar 31 Mawrth 2024, roedd 6,447 o aelwydydd wedi'u lleoli mewn llety dros dro ledled Cymru. Mae hyn yn gynnydd o 23% o gymharu â 31 Mawrth 2023, a dyma'r ffigur uchaf a gofnodwyd erscyflwyno'r ddeddfwriaeth bresennol ym mis Ebrill 2015. Roedd hyn yn cyfateb i 47.8 fesul 10,000 o aelwydydd. Y ffigur cyfatebol ar gyfer Pen-y-bont ar Ogwr oedd 266 o aelwydydd, sef cyfradd o 42.6 fesul 10,000 o aelwydydd.

Mae'r siart isod yn rhoi rhagor o wybodaeth am gymorth Tai a Digartrefedd:

## Tai a Digartrefedd 2023-24




Nifer y bobl a oedd yn Cysgu ar y Stryd ym Mhen-y-bont ar Ogwr ym mis Tachwedd 2024 oedd 5.

Gall digartrefedd gael effaith fawr ar fywyd unigolyn a / neu fywyd ei deulu. Gall fod yn niweidiol i iechyd, cyflogaeth neu gyfleoedd addysg a hyfforddiant unigolyn. Mae bod 'dan fygythiad o ddigartrefedd' yn golygu na fydd gennych gartref yn y 56 diwrnod nesaf.

Yn 2023-24, aseswyd bod 290 o aelwydydd yn y fwrdeistref dan fygythiad o ddigartrefedd o fewn 56 diwrnod, felly roedd dyletswydd atal yn ddyledus iddynt ac, o'r rhain, cwblhawyd 123 (42.4%) o gamau atal digartrefedd yn llwyddiannus.

Ym mis Ebrill 2020, sefydlwyd pedwar pod a ddyluniwyd i helpu i gadw pobl sy'n cysgu ar y stryd yn ddiogel yn ystod y pandemig coronafeirws mewn lleoliadau dros dro ym mwrdeistref sirol Pen-y-bont ar Ogwr. O'r rheini mae 1 yn dal i gael ei ddefnyddio.

5.2.5 Mae'r tabl canlynol yn rhoi manylion ystadegau gwasanaethau ar gyfer gwasanaethau ar draws y cyngor:

## Gwasanaeth Refeniw a Budd-daliadau

| Gwasanaeth | Data Ystadegol |
|---|---|
| **Prif Weithredwyr** | |
| Y Dreth Gyngor – Amcangyfrif o nifer yr anheddau y codir tâl arnynt ar 31/12/2024 | 66,258 |
| Y Dreth Gyngor – Tâl Casgladwy Net 2025-26 (Elfen cyngor yn unig) | £106,698,377 |
| Ardrethi Annomestig – Nifer yr eiddo masnachol ar 31/12/2024 | 5,445 |
| Ardrethi Annomestig – Tâl Casgladwy ar 31/12/2024 | £42,803,361 |
| Gwariant Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor 2024-25 ar 1/1/2025 | £16,425,028 |
| Llwyth Achosion Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor ar 1/1/2025 | 12,196 |
| Cyfanswm nifer yr aelwydydd â disgownt person sengl ar 31/12/2024 | 22,336 |
| Nifer yr Hawlwyr Budd-dal Tai ar 31/12/2024 | 4,471 |

# Adran 6

## Geirfa

# Adran 6: Geirfa

## 6.1 Geirfa

**Cyllid allanol cyfun (AEF)**
Cyfanswm y cymorth allanol ar gyfer gwariant refeniw awdurdodau lleol nad yw'n cael ei ariannu o'r dreth gyngor. Mae'n cynnwys grant cynnal refeniw a thaliadau o'r arenillion o ardrethi annomestig a ail-ddosbarthwyd.

**Cyllideb**
Y datganiad sy'n diffinio cynlluniau ariannol y Cyngor dros gyfnod penodol, blwyddyn fel arfer.

**Band D**
Y Dreth Gyngor sydd i fod i gwmpasu'r cartref cyffredin. Mae'n cynnwys eiddo gwerth hyd at £123,000 (prisiad yn seiliedig ar werthoedd eiddo 2003). Asesir eiddo mwy newydd ar yr hyn y byddai'r prisiad wedi bod yn 2003.

**Cyfwerth â Band D**
Nifer yr eiddo band D mewn ardal a fyddai'n codi'r un dreth gyngor â nifer wirioneddol yr eiddo ar bob band. Trosir eiddo i sylfaen sy'n cyfateb ag eiddo band D. Er enghraifft, mae un band H yn cyfateb i ddau eiddo band D, gan fod trethdalwr mewn eiddo band H yn talu dwywaith cymaint o dreth gyngor.

**Gwariant cyfalaf**
Nodir y diffiniad at ddibenion cyfalaf yn adran 16 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003, sy'n nodi bod rhaid cyfalafu gwariant yn unol ag arferion priodol.

Bydd y gwariant y gellir ei gyfalafu yn cynnwys:

1. Caffael, adfer, gwella neu osod tir;
2. Caffael, adeiladu, paratoi, gwella neu ailwneud ffyrdd, adeiladau a strwythurau eraill;
3. Caffael, gosod neu newid cyfarpar, peiriannau a cherbydau symudol neu ansymudol;
4. Caffael cyfalaf cyfranddaliadau neu gyfalaf benthyciadau mewn unrhyw gorff corfforaethol
5. Gwaith y bwriedir iddo gynyddu'n sylweddol inswleiddiad thermol adeilad
6. Caffael neu baratoi rhaglen gyfrifiadurol.

**Cynghorau cymuned**
Cynghorau Cymuned yw'r cyrff cynrychioli swyddogol mwyaf lleol yng Nghymru, y dewisir eu haelodau bob pedair blynedd i gynrychioli ardal gyfan y cyngor cymuned.

**Cynllun corfforaethol**
Mae'r Cynllun Corfforaethol yn rhoi cyfeiriad strategol i waith yr Awdurdod i gyflawni ei weledigaeth ac yn nodi amcanion gwella allweddol y Cyngor ar gyfer y blynyddoedd i ddod. Mae'n adlewyrchu'r ymrwymiad parhaus i weithio mewn partneriaeth ag eraill i ddarparu gwasanaethau i'n cymunedau. Mae'n amlinellu hefyd sut bydd ein blaenoriaethau'n cael eu datblygu.

**Y dreth gyngor**
Dyma ffynhonnell trethiant lleol i'r awdurdod. Codir y dreth gyngor ar aelwydydd yn ei ardal gan yr awdurdod bilio, ac mae'n cynnwys y dreth gyngor ar gyfer awdurdodau'r Heddlu a Chynghorau Cymuned yn ogystal ag ardoll treth gyngor yr awdurdod ei hun. Dosberthir yr enillion i awdurdodau praeseptio ac i'w defnyddio gan eu cronfeydd cyffredinol eu hunain.

**Sylfaen y dreth gyngor**
Sylfaen y dreth gyngor yw mesur capasiti trethadwy cymharol gwahanol ardaloedd yn y Fwrdeistref Sirol, ac fe'i cyfrifir yn unol â'r rheolau rhagnodedig. Mae pob eiddo domestig yn y Fwrdeistref Sirol wedi'i brisio gan y Swyddfa Brisio. Unwaith iddo gael ei brisio, dyrennir un o'r naw band prisio (Bandiau A i I) i'r eiddo. Caiff pob band ei luosi â ffactor penodol i ddod ag ef i'r hyn sy'n gyfwerth â Band D. Mae sylfaen y dreth yn cynrychioli nifer yr anheddau y codir tâl arnynt yn yr ardal a fynegir fel cyfwerth â Band D, gan ystyried cyfanswm nifer yr esemptiadau, gostyngiadau a gostyngiadau band anabl, gyda'r Sylfaen Dreth net yn cael ei chyfrifo drwy ystyried cyfradd gasglu amcangyfrifedig y Cyngor. Mesurir y Dreth Gyngor fel yr hyn sy'n gyfwerth â 'Band D' fel y safon ar gyfer cymharu lefelau'r dreth gyngor rhwng ac ar draws awdurdodau lleol.

**Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (CTR)**
Disodlwyd Cynllun Budd-dal y Dreth Gyngor gan gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (CTR) ym mis Ebrill 2013. Gosodir y Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yng Nghymru gan Reoliadau a wnaed dan Atodlen 1B Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (fel y'i mewnosodwyd gan Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 2012).

**Cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd**
Mae'r rhain yn gronfeydd wrth gefn sydd wedi'u neilltuo at ddiben penodol.

**Etholwyr**
Y rhai sydd â hawl i bleidleisio mewn etholiad.

**Amcangyfrifon**
Dyma'r symiau y disgwylir iddynt gael eu gwario neu eu derbyn fel incwm, yn ystod cyfnod cyfrifyddu.

**IFRS (Safonau adrodd ariannol rhyngwladol)**
Dyma gyfres o safonau cyfrifyddu a ddatblygwyd gan y Bwrdd Safonau Cyfrifyddu Rhyngwladol (IASB). Nod IFRS yw darparu fframwaith byd-eang ar gyfer sut mae'r sector cyhoeddus a chwmnïau preifat yn paratoi ac yn datgelu eu datganiadau ariannol. Mae cael safon ryngwladol yn arbennig o bwysig i sefydliadau mawr. Bydd mabwysiadu un set o safonau byd-eang yn symleiddio gweithdrefnau cyfrifyddu drwy ganiatáu i gwmni ddefnyddio un iaith adrodd drwyddi draw. Bydd un safon yn rhoi darlun cydlynol ar gyllid i gwsmeriaid ac archwilwyr hefyd. Ni ddylid drysu rhwng IFRS ac IAS (Safonau Cyfrifyddu Rhyngwladol), sef safonau hŷn y mae IFRS bellach wedi'u disodli.

**Ffioedd a thaliadau**
Mae rhai lefelau ffioedd yn cael eu pennu gan y llywodraeth – fel ffioedd cynllunio a thrwyddedu – tra bod gan gynghorau reolaeth dros eraill, fel taliadau parcio, llogi adeiladau ac ati. Mae nifer bach o wasanaethau na chaniateir i Gynghorau godi tâl amdanynt – er enghraifft, addysg ysgol ac etholiadau.

**Ardoll**
Mae Rheoliadau Cyrff Ardollau (Cyffredinol) 1992 yn caniatáu i gorff ardollau godi ardoll ar awdurdod perthnasol (e.e. Cyngor Bwrdeistref Sirol) yn unol â'r Rheoliadau hyn, mewn perthynas ag unrhyw flwyddyn ariannol i dalu gwariant y corff ardollau y byddai pŵer praeseptio perthnasol wedi bod yn arferadwy mewn perthynas ag ef. Diffinnir "pŵer praesept perthnasol" fel a ganlyn: "mewn perthynas â chorff ardollau, unrhyw bŵer dan unrhyw ddeddfiad a fyddai gan y corff hwnnw, ar wahân i adran 117 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988, mewn perthynas â'r flwyddyn ariannol a gychwynnodd ym 1990 i gyhoeddi praesept, gwneud ardoll ar, neu fod ei dreuliau'n cael eu talu gan gyngor sir neu awdurdod codi tâl". Yn wahanol i braesept, ni chesglir ardoll gan dalwyr y dreth gyngor.

**Grantiau'r llywodraeth**
Cymorth gan y llywodraeth ac asiantaethau rhynglywodraethol a chyrff tebyg, boed yn lleol, yn genedlaethol neu'n rhyngwladol, ar ffurf arian parod neu drosglwyddo asedau i Gyngor yn gyfnewid am gydymffurfiaeth yn y gorffennol neu'r dyfodol â rhai amodau sy'n ymwneud â gweithgareddau'r Cyngor.

**Gwariant net**
Gwariant gros namyn incwm.

**MTFS (strategaeth ariannol tymor canolig)**
Cynllun yn mynegi sut y bydd y Cyngor yn ymdrechu i ddefnyddio ei adnoddau i gefnogi'r gwaith o gyflawni ei flaenoriaethau corfforaethol a'i ddyletswyddau statudol, gan gynnwys rheoli pwysau a risgiau ariannol dros gyfnod o 4 blynedd.

**Ardrethi annomestig (NDR)**
Modd i fusnesau lleol gyfrannu at gost gwasanaethau awdurdodau lleol. Cesglir NDR gan awdurdodau bilio ar ran Llywodraeth Cymru, ac yna caiff ei ailddosbarthu ymhlith yr holl awdurdodau lleol ac awdurdodau'r heddlu ar sail Asesiad o Wariant Safonol a'r boblogaeth. Fe'u gelwir hefyd yn 'Ardrethi Busnes'.

**Praesept**
Praesept a wneir gan awdurdodau praeseptio ar awdurdodau bilio, sy'n ei gwneud hi'n ofynnol i'r awdurdod bilio gasglu incwm gan dalwyr y dreth gyngor ar eu rhan.

**Benthyca yn unol â'r Cod Materion Ariannol**
Benthyca mwy na'r hyn a gefnogir gan Lywodraeth Cymru y mae'r awdurdod yn penderfynu y gall fforddio ei ad-dalu naill ai o arbedion a gynhyrchir o'r buddsoddiad neu o'r Dreth Gyngor.